# LLYWODRAETH CYMRU,

# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG

# CANLLAWIAU

# CWRICWLWM I GYMRU

Ionawr 2020

# CYNNWYS


Adran 1. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried, a pham? ..... 3

Adran 2. Beth fydd yr effaith ar les cymdeithasol? ..... 10

Adran 3. Beth fydd yr effaith ar les diwylliannol a'r Gymraeg? ..... 14

Adran 4. Beth fydd yr effaith ar les economaidd? ..... 16

Adran 5. Beth fydd yr effaith ar les amgylcheddol? ..... 19

Adran 6. Cofnod o Asesiadau Effaith Llawn sy'n ofynnol ..... **Error! Bookmark not defined.**

Adran 7. Casgliad ..... **Error! Bookmark not defined.**

Asesiadau Effaith Llawn ..... **Error! Bookmark not defined.**

A. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ..... **Error! Bookmark not defined.**

B. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ..... **Error! Bookmark not defined.**

C. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ..... **Error! Bookmark not defined.**

D. Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth ..... **Error! Bookmark not defined.**

E. Asesiad o'r Effaith ar Brawfesur Polisïau Gwledig ..... **Error! Bookmark not defined.**

F: Sgrinio'r Effaith ar Iechyd ..... 54

## ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED, A PHAM?

### 1.1 Cefndir

Fel yr amlinellwyd yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl*, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i ddatblygu cwricwlwm a threfniadau asesu gweddnewidiol yng Nghymru. Rydym am alluogi pobl ifanc i gael llythrennedd a rhifedd o safon uwch, dod yn fwy cymwys yn ddigidol ac yn ddwyieithog, a datblygu i fod yn feddylwyr mentrus, creadigol a beirniadol. Mae tegwch a rhagoriaeth wrth galon y trefniadau newydd, a'r nod yw helpu i ddatblygu dinasyddion hyderus, galluog a gofalgar.

Addysg yw cenhadaeth ein cenedl. Nid oes dim mor hanfodol â mynediad cyffredinol at, a chaffael, yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau y mae ar ein pobl ifanc eu hangen ar gyfer cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithredol. Fel cenedl, mae angen inni arfogi ein dysgwyr ar gyfer y byd sydd o'u blaenau. Maent yn wynebu dyfodol o newid cyflym yn dechnolegol, yn gymdeithasol ac yn economaidd, lle bydd addasadwyedd, creadigrwydd a sgiliau digidol yn allweddol.

Mewn cydweithrediad ag ymarferwyr, mae'r canllawiau arfaethedig wedi cael eu drafftio fel datganiad clir o'r hyn sy'n bwysig wrth ddarparu addysg eang a chytbwys. Pedwar diben y cwricwlwm yw'r weledigaeth a'r dyhead a rennir ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Hynny yw, eu bod yn datblygu'n:

- dysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau;
- cyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus, yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Bydd yn ofynnol i ysgolion ddatblygu cwricwlwm sy'n galluogi dysgwyr i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben hwn.

Wrth gyflawni'r rhain, rydym yn gosod disgwyliadau uchel i bawb, yn hyrwyddo lles - yn unigol ac yn genedlaethol – ac yn mynd i'r afael ag anwybodaeth a chamwybodaeth, gan annog ymgysylltu beirniadol a dinesig.

Bwriedir i'r canllawiau fod yn sail i ymdrechion athrawon ac ysgolion, ynghyd ag ymdrechion cenedlaethol, i geisio codi safonau i bawb, mynd i'r afael â'r bwlch

cyrhaeddiad a sicrhau system addysg sy'n destun balchder cenedlaethol ac sy'n ennyn hyder y cyhoedd.

Bydd y Cwricwlwm i Gymru yn cyfrannu at ein nodau fel cenedl fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae darparu addysg i'n plant a'n pobl ifanc sy'n cael ei harwain gan y pedwar diben yn ganolog i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae hefyd yn gyfrwng pwysig i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ym mrofiad dysgu ein plant a'n pobl ifanc, a rhoi dealltwriaeth iddynt o'u hawliau.

Mae *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*, a gyhoeddwyd yn 2015, yn nodi materion ymarferol a sylfaenol o ran y cwricwlwm a'r trefniadau asesu presennol yng Nghymru, gan gynnwys:

- lefelau cyflawniad nad ydynt mor uchel ag y dylent fod (yn ôl tystiolaeth PISA ac Estyn);
- adolygiad gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (yr OECD) yn 2014 a ddaeth i'r casgliad bod y trefniadau asesu a gwerthuso presennol yn anfoddhaol o ran gwella perfformiad cyfran uchel o bobl ifanc Cymru;
- diffyg dilyniant ym maes addysg ac wrth bontio rhwng cyfnodau;
- profiad addysgol gwael i bobl ifanc yng nghyfnod allweddol 3;
- nid yw cwricwlwm cenedlaethol a ddyluniwyd yn 1988 yn adlewyrchu'r byd y mae pobl ifanc yn byw ynddo nawr, a goblygiadau byd newidiol ar beth y mae angen i bobl ifanc ei ddysgu, a sut y mae angen iddynt wneud hynny.

### 1.2 Y Tymor Hir

Mae'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd wedi'u datblygu i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer byd sy'n newid yn gyflym, ac i sicrhau bod addysg yn cyflawni ei blaenoriaethau ac yn mynd i'r afael ag anghenion posibl busnes a'r economi yn y dyfodol. Mae ffyniant, cydlyniad a lles cenedl yn cael eu hadeiladu ar system addysg lwyddiannus.

Y pedwar diben ar gyfer y cwricwlwm yw'r man cychwyn ar gyfer pob math o addysgu a dysgu, gan roi disgwyliadau i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ymagweddau tuag at ddysgu a fydd yn sail i'r hyn sydd ei angen arnynt drwy gydol eu bywydau.

### 1.3 Atal

Mae anfantais, ar sawl ffurf, yn effeithio ar gyflawniad addysgol plant a phobl ifanc. Mae fframwaith y cwricwlwm yn sail i addysg statudol ac fe'i cynlluniwyd i ennyn diddordeb pob dysgwr er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd. Mae goblygiadau pwysig i hyn o ran eu bywydau fel oedolion. Mae pedwar diben y cwricwlwm yn cyfrannu at dorri cylchoedd negyddol lluosog drwy gefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu fel: dysgwyr uchelgeisiol, galluog; cyfranwyr mentrus, creadigol; dinasyddion egwyddorol, gwybodus; ac unigolion iach a hyderus.

Yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl* amlinellir nod Llywodraeth Cymru, sef creu ysgolion cryf a chynhwysol sy'n ymrwymedig i ragoriaeth, cydraddoldeb a lles i gefnogi'r broses o ddatblygu a gweithredu cwricwlwm a threfniadau asesu gweddnewidiol. Cam gweithredu allweddol arall a amlinellir yn y strategaeth yw ehangu'r Grant Datblygu Disgyblion, gan adeiladu ar ei lwyddiant o ran lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a chwalu rhwystrau i ddysgu.

Yn sail i'r gwaith hwn mae cred na ddylai gallu rhywun i elwa ar addysg gael ei bennu gan lle maen nhw'n byw na beth yw eu hincwm. Mae'r fframwaith wedi'i gynllunio i gefnogi ysgolion i ddatblygu eu cwricwla ar gyfer pob dysgwr gan ganolbwyntio ar ddull mwy personol o ddilyniant mewn dysgu. Mae'r canllawiau, sydd bellach wedi'u mireinio, yn nodi y dylai ysgolion ystyried bylchau cyrhaeddiad wrth ddatblygu eu cwricwlwm. Mae sicrhau bod pob dysgwr yn cael cymorth i wireddu'r pedwar diben drwy gwricwlwm eang a chytbwys yn rhan hanfodol o godi dyheadau pob dysgwr a mynd i'r afael â'r bylchau cyrhaeddiad. Mae hyn yn cynnwys bylchau yn sgil gwahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol - ond gall y bylchau fod yn llawer ehangach. Mae hyblygrwydd y trefniadau newydd yn galluogi ysgolion a lleoliadau a ariennir nas cynhelir i ddarparu cymorth gwahanol i wahanol ddysgwyr er mwyn bodloni disgwyliadau uchel ac i fynd i'r afael â'r gwahanol fylchau mewn cyrhaeddiad.

Mae'r canllawiau mewn perthynas â'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn defnyddio pynciau a themâu'n ymwneud â lles meddyliol, corfforol ac emosiynol. Bydd pob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) yn y trefniadau newydd yn cael eu trin yn gyfartal, gan wneud iechyd meddwl a chefnogi lles yn elfennau allweddol o'r cwricwlwm. Er y bydd y cwricwlwm newydd yn allweddol, mae datblygu iechyd a lles cadarnhaol mewn dysgwyr yn fater ehangach, sy'n ddibynnol ar ddull ysgol gyfan. Ategir hyn gan y cynigion ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n ceisio meithrin a datblygu dealltwriaeth dysgwyr

o'r pethau a all effeithio arnynt, yn gadarnhaol ac yn negyddol, i'w cefnogi i ddatblygu perthnasoedd parchus ac iach. Mae hyn yn helpu dysgu o ran cefnogi atal canlyniadau negyddol o ganlyniad i berthnasoedd ac ymddygiad negyddol.

### 1.4 Integreiddio

Mae'r cwricwlwm newydd wedi'i gynllunio i sicrhau ei fod yn cyfrannu i'r eithaf at bob un o'r saith nod llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, fel a ddangosir isod:

| | |
|---|---|
| Cymru lewyrchus | • Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd yw galluogi 'cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith' a bydd angen i gwricwla ysgolion alluogi dysgwyr i wneud cynnydd tuag at hyn.<br>• Mae dysgu am yrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith wedi'i wreiddio drwy'r canllawiau i gyd i helpu i sicrhau bod dysgwyr yn cael cipolwg ar waith a gyrfaoedd ac yn meithrin sgiliau cyflogadwyedd ar draws y cwricwlwm.<br>• Bydd y sgiliau trawsgwricwlaidd - llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol - yn orfodol ar draws y cwricwlwm er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn meddu ar y sgiliau hyn, sy'n hanfodol ar gyfer llwyddiant yn ddiweddarach yn eu bywydau ac ar gyfer Cymru lewyrchus.<br>• Mae'r canllawiau'n cynnwys ffocws o'r newydd ar sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben, gan gynnwys effeithiolrwydd personol a chreadigrwydd ac arloesedd. |
| Cymru gydnerth | • Mae'r nodweddion sy'n ategu'r pedwar diben yn cyfrannu at godi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth ac ecoleg: o dan 'dinasyddion egwyddorol, gwybodus', mae dysgwyr yn dangos eu hymrwymiad i gynaliadwyedd y blaned ac yn cydnabod eu bod yn dibynnu arno; maent yn deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth wneud dewisiadau a chymryd camau. Bydd angen i gwricwla ysgolion sicrhau bod dysgwyr yn symud tuag at y dibenion hyn.<br>• Mae canllawiau newydd y cwricwlwm yn caniatáu ac yn annog addysgu i bwysleisio bioamrywiaeth ac ecoleg yn amgylcheddau lleol y dysgwyr (MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg), a hefyd yn hwyluso golwg ehangach ar y byd (MDaPh y Dyniaethau).<br>• Mae canllawiau ar gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer pob dysgu yn darparu y dylai dysgwyr ddatblygu dinasyddiaeth leol, genedlaethol a rhyngwladol ac y dylent allu ymateb i heriau amgylcheddol ym mhob un. |
| Cymru iachach | • Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd y darperir ar ei gyfer mewn deddfwriaeth yw galluogi 'unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywydau cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas' ac mae pob MDaPh yn cyfrannu at y diben hwn.<br>• Bwriad y cynigion ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yw codi proffil ac ansawdd y profiad dysgu yn y maes hwn a sicrhau ei fod yn cael pwyslais priodol.<br>• Bydd yn ofynnol i ysgolion gynnwys datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a a dilyniant MDaPh Iechyd a Lles yn eu cwricwlwm, gan roi ffocws sylweddol ar iechyd a lles dysgwyr. |
| Cymru sy'n fwy | • Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd y darperir ar ei gyfer mewn deddfwriaeth yw galluogi 'dysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau' ac mae pob MDaPh |

| | |
|---|---|
| cyfartal | yn cyfrannu at y diben hwn.<br>• Caiff cwricwla ysgolion eu hastudio hyd at 16 oed, gan sicrhau continwwm o brofiad drwy addysg orfodol a chan sicrhau y darperir dysgu eang. Mae Fframwaith y Cwricwlwm Newydd yn dileu 'camau a chyfnodau allweddol' ac yn hytrach yn cynnwys continwwm o 3 oed i 16 gyda dilyniant dysgu yn egwyddor sylfaenol. Ceir egwyddorion cynnydd, a ategir gan ddisgrifiadau dysgu, sy'n rhoi canllawiau manylach ar ddilyniant ar draws y cwricwlwm. Mae'r disgrifiadau hyn yn cyfleu'r hyn y mae'n ei olygu i ddysgwr ddatblygu ar hyd y continwwm dysgu ac maent yn darparu pwyntiau cyfeirio ar gyfer cyflymdra'r cynnydd hwnnw. |
| Cymru o gymunedau cydlynus | • Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd y darperir ar ei gyfer mewn deddfwriaeth yw galluogi 'unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywydau cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas' ac mae pob MDaPh yn cyfrannu at y diben hwn.<br>• Mae'r canllawiau'n rhoi ffocws clir ar bwysigrwydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r ystod amrywiol o werthoedd, hunaniaethau a safbwyntiau sy'n rhan o'r Gymru gyfoes. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi y dylai cwricwla ysgolion geisio ymgorffori amrywiaeth fel thema drawsbynciol.<br>• Mae Crefydd, gwerthoedd a moeseg yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau a bydd yn orfodol o 3 i 16 oed, gan alluogi dysgwyr i gael cipolwg ar ystod eang o ddiwylliannau a safbwyntiau athronyddol. |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | • Mae'r cynigion yn cynnwys dysgu Cymraeg a Saesneg yn orfodol i bob dysgwr hyd at 16 oed.<br>• Mae'r trefniadau newydd yn cynnwys canllawiau y dylai dysgwyr gael y cyfle i ddatblygu eu hunaniaeth drwy archwilio cwestiynau ynghylch diwylliant, iaith a pherthyn yn eu cymdogaeth ac yng Nghymru. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd datblygu cwricwlwm sy'n adlewyrchu ac yn gwerthfawrogi Cymru.<br>• Bydd y cynigion yn galluogi ysgolion a lleoliadau i drochi dysgwyr yn llawn yn y Gymraeg.<br>• Yn y Cwricwlwm Newydd i Gymru, mae'r Gymraeg yn rhan o'r MDaPh Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, ynghyd â Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol eraill. Mae cynnydd mewn ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu yn seiliedig ar gontinwwm dysgu. Mae hyn yn dechrau gydag ychydig neu ddim iaith ac yn datblygu tuag at hyfedredd/rhugledd. Bydd ysgolion ac ymarferwyr yn defnyddio hyn i ddatblygu Cymraeg yn y cwricwlwm a bydd disgwyl i ddysgwyr 3-16 oed wneud cynnydd yn y Gymraeg ar hyd y continwwm hwn. |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | • Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd yw creu 'dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd' a bydd angen i ddysgu ar draws cwricwlwm ysgol gyfrannu at hyn.<br>• Mae'r canllawiau'n pwysleisio pwysigrwydd tynnu cyd-destunau rhyngwladol i mewn i ddysgu ar draws y cwricwlwm, gan gynnig cyfleoedd i ddysgwyr adlewyrchu eu rolau a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion byd-eang sy'n byw mewn cymdeithas sy’n amrywiol yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol, ac ymateb i'r heriau o weithio tuag at ddyfodol cynaliadwy a theg.<br>• Mae'r canllawiau mewn perthynas â MDaPh y Dyniaethau a MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn cynorthwyo dysgwyr i fod yn ddinasyddion gwybodus, hunanymwybodol sy'n ymwneud â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac sy'n gallu cymryd |

| | |
|---|---|
| | camau gweithredu moesegol a chynaliadwy ar ôl eu hystyried. |

Caiff ffyniant economaidd, cydlyniant a lles cymdeithasol ein cenedl eu seilio ar system addysg gref a llwyddiannus, felly mae'r gwaith hwn wedi'i gynllunio i gefnogi'n uniongyrchol y broses o gyflwyno thema 'Uchelgeisiol ac yn Dysgu' yn *Ffyniant i Bawb* (2017). Mae cysylltiad pendant, hefyd, rhwng yr holl themâu allweddol yn y Strategaeth Genedlaethol (Ffyniannus a Diogel; Iach ac Egnïol; Uchelgeisiol ac yn Dysgu; ac Unedig a Chysylltiedig) a phedwar diben y Cwricwlwm. O ganlyniad, mae'r cynigion yn atgyfnerthu neu'n cyfrannu at sawl maes polisi o fewn Llywodraeth Cymru a gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer Cymru.

Mae *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl* (2017) yn cyfrannu at thema ‘Uchelgeisiol ac yn Dysgu’, ac mae 'Cwricwlwm Gweddnewidiol' wrth wraidd ei hamcanion galluogi.

### 1.5 Cydweithredu

Bydd trefniadau'r cwricwlwm newydd yn cael effaith ar ddysgwyr, ymarferwyr (mewn gwahanol ysgolion a lleoliadau), cyrff llywodraethu, awdurdodau lleol, consortia addysg rhanbarthol, Estyn a chymwysterau Cymru. Yn fwy cyffredinol, byddant hefyd yn effeithio ar sefydliadau'r trydydd sector, sefydliadau diwylliannol, addysg bellach ac uwch, a busnesau.

Mae cyd-gynhyrchu wedi bod yn allweddol i ddatblygiad y trefniadau hyn, yn arbennig:

- Mae ymarferwyr wedi cydweithio â swyddogion o Lywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol, Estyn a Chymwysterau Cymru i ddatblygu'r canllawiau
- Mae'r ymarferwyr hyn wedi gweithio'n agos o fewn eu hysgolion a chyda'u hysgolion clwstwr i sicrhau bod cynigion yn cael eu profi a'u llywio gan adborth a mewnbwn ehangach
- Mae'r broses o lywodraethu'r Rhaglen Diwygio'r Cwricwlwm yn cynnwys partneriaid addysgol allweddol fel aelodau o'r prif grwpiau penderfynu
- Mae rhanddeiliaid ac arbenigwyr ehangach sydd â diddordebau neu wybodaeth arbenigol arbennig wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r canllawiau yn ogystal â strwythur y cwricwlwm cyfan

- Yn ystod y cam adborth, cynhaliwyd rhaglen fanwl o ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau ymgysylltu effeithiol â dysgwyr, grwpiau diddordeb sy'n cynrychioli'r nodweddion gwarchodedig, a rhanddeiliaid nad ydynt yn yr ysgol fel Gweithwyr Ieuenctid, sefydliadau buddiant, busnesau a sefydliadau Addysg Uwch a Phellach a grwpiau sy'n cynrychioli gwahanol gefndiroedd ethnig a chrefyddol, gwahanol hunaniaethau rhywiol a phobl ag anableddau.

### 1.6 Cynnwys pawb

Helpodd y cam adborth (tymor yr haf 2019) ni i ddeall yn well sut y bydd trefniadau'r cwricwlwm yn gweithio mewn ysgolion a lleoliadau. Fe wnaeth y dadansoddiad o'r adborth hwn lywio'n uniongyrchol y gwaith mireinio ar y canllawiau yn ystod tymor yr Hydref 2019. Yn ogystal â hyn, sefydlwyd grŵp rhanddeiliaid strategol fel rhan o'r trefniadau llywodraethu i sicrhau bod cynrychiolwyr o amrywiaeth eang o grwpiau diddordeb yn cael eu cynnwys drwy gydol cyfnod datblygu'r cwricwlwm. Mae'r aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o addysg uwch, addysg bellach, busnes, y trydydd sector, sefydliadau ffydd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac ati. Un o rolau allweddol yr aelodau yw sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhannu â'u rhwydweithiau ac y ceir adborth.

## ADRAN 2. BETH FYDD YR EFFAITH AR LES CYMDEITHASOL?

### 2.1 Pobl a Chymunedau

**Sut (p’un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar bobl a chymunedau?**

Mae pedwar diben y cwricwlwm newydd yn galluogi 'unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas' a 'dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd'. Bydd angen i gwricwla ysgolion sicrhau bod dysgwyr yn symud ymlaen tuag at y rhain.

Mae'r canllawiau'n nodi y dylai cwricwla ysgolion gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o'u hardal leol, Cymru a'r byd ehangach a'r cysylltiadau rhyngddynt. Rhagwelir, felly, y bydd pob dysgwr yn datblygu ymdeimlad cryfach o le, o berthyn ac o ymgysylltu â'u cymunedau lleol a'u cenedl wrth iddynt brofi dysgu mewn ffordd fwy cyd-destunol.

Un o oblygiadau rhoi mwy o rym i athrawon fel a ragwelir drwy ymagwedd *Cwricwlwm i Gymru* yw'r potensial am fwy o amrywiaeth rhwng ysgolion o ran y cwricwlwm a gynigir. Gallai hyn effeithio ar y dysgwyr hynny sy'n fwy tebygol o symud rhwng ysgolion a lleoliadau, megis plant personél y lluoedd arfog a/neu blant â nodweddion gwarchodedig. Rydym wedi ceisio atal gormod o amrywiaeth, a’i lliniaru drwy wneud elfennau allweddol o drefniadau'r cwricwlwm yn orfodol: bydd datganiadau o’r hyn sy’n bwysig ac egwyddorion dilyniant yn orfodol. Felly, bydd yn ofynnol i ysgolion ddarparu dysgu ac addysgu o ran y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym maes iechyd a lles a galluogi dysgwyr i wneud cynnydd yn y maes hwn.

Felly mae effaith gymharol gadarnhaol ar gymunedau yn debygol gan y dylai ysgolion ddatblygu mwy o ffocws ar weithio gyda chymunedau lleol, a datblygu dysgu sy'n galluogi dysgwyr i ymgysylltu â’u cymunedau lleol.

### 2.2 Hawliau Plant

Wrth ddatblygu’r cwricwlwm newydd, mae sylw dyledus wedi’i roi i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn Atodiad A.

Mae'r Is-grŵp Plant a Phobl Ifanc y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol wedi'i sefydlu i ystyried yn benodol ymgysylltu'n effeithiol â dysgwyr drwy rwydweithiau ieuenctid sefydledig gan gynnwys Comisiynydd Plant Cymru, Plant yng Nghymru, Fforymau Ieuenctid, Cynghorau Ysgol, Senedd Ieuenctid Cymru, Chwaraeon Cymru, yr Urdd a sefydliadau perthnasol eraill yn y trydydd sector. Yn ystod y cam adborth, cynhaliwyd rhaglen eang o weithgareddau gan gynnwys datblygu pecyn cymorth ymgysylltu, digwyddiadau rhanbarthol a grwpiau ffocws ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae Canllaw i Blant a Phobl Ifanc yn cael ei gyhoeddi ar y cyd â chanllawiau'r cwricwlwm.

Gan weithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd Plant, rydym wedi mireinio'r canllawiau ar ymgorffori addysg hawliau dynol yng nghwricwla ysgolion. Mae Meysydd Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau ac Iechyd a Lles yn darparu'n benodol ar gyfer dysgu am Hawliau Dynol a Hawliau Plant.

### 2.3 Cydraddoldeb

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i atodi yn Atodiad B.

### 2.4 Prawfesur Gwledig

### Sut (p'un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar unigolion a chymunedau gwledig?

Mae trefniadau'r cwricwlwm wedi'u cynllunio i fod yn berthnasol i bob dysgwr ym mhob ysgol neu leoliad yng Nghymru. Roedd yr ymarferwyr a gyfrannodd at ddatblygu'r trefniadau newydd yn cynnwys cynrychiolwyr o ysgolion o wahanol faint mewn lleoliadau ledled Cymru, gan gynnwys ardaloedd gwledig, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, rhanddeiliaid ac arbenigwyr.

Gellir dod o hyd i Sgrinio Prawfesur Gwledig yn Atodiad E. Nid ydym yn rhagweld y bydd angen Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig Llawn gan y bydd yr hyblygrwydd yn y trefniadau newydd yn addas ar gyfer gwahanol ysgolion a lleoliadau. Fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Mae'r canllawiau wedi'u cynllunio'n benodol i fod yn hygyrch i ystod eang o ysgolion a dysgwyr o wahanol gefndiroedd. Bydd hyn yn sicrhau bod ysgolion mewn ardaloedd gwledig yn gallu datblygu cwricwla sy'n adlewyrchu:

- y gwasanaethau, y profiadau a'r cyfleoedd sydd ar gael yn rhwydd mewn ardaloedd gwledig, ac sy'n unigryw iddynt
- yr anghenion a'r materion lleol a allai effeithio ar ddysgwyr mewn cymunedau gwledig.

### 2.5 Iechyd

### 2.5a Sut (p'un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar benderfynyddion iechyd?

Un o bedwar diben y cwricwlwm yw cefnogi dysgwyr i fod yn unigolion iach a hyderus. Mae'r MDaPh Iechyd a Lles yn defnyddio pynciau a themâu sy'n ymwneud â lles meddyliol, corfforol ac emosiynol. Yn ogystal, wrth ddatblygu'r cwricwlwm newydd, mae ymarferwyr wedi ystyried sut mae amgylchedd yr ysgol yn cefnogi iechyd a lles cymdeithasol, emosiynol, ysbrydol a chorfforol dysgwyr. Er y bydd trefniadau'r cwricwlwm newydd yn allweddol, mae datblygu iechyd a lles cadarnhaol mewn dysgwyr yn fater ehangach, sy'n ddibynnol iawn ar ddull ysgol gyfan.

Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig o ran iechyd a lles yn canolbwyntio ar gefnogi dysgwyr i:

- ddatblygu a chynnal eu hiechyd a'u lles corfforol
- cefnogi eu hiechyd meddwl a'u lles emosiynol drwy eu profiadau a sut y maent yn ymateb iddynt
- gwneud penderfyniadau iach a chadarnhaol
- ymgysylltu'n gadarnhaol â gwahanol ddylanwadau cymdeithasol
- ffurfio a chynnal perthnasoedd cadarnhaol.

Mae'r cynnig ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gorfodol ar gyfer dysgwyr hyd at 16 oed yn cynnig cyfleoedd i archwilio sut y gall eu profiadau, penderfyniadau, dylanwadau cymdeithasol/diwylliannol a pherthnasoedd eu helpu i ddatblygu empathi a chydnabod yr urddas a'r parch sy'n ddyledus i eraill, ac i'r byd o'u cwmpas. Bwriad hyn yw codi proffil a safon y profiad dysgu yn y maes hwn.

**2.5b. A allai fod effaith wahaniaethol ar iechyd grwpiau penodol?**

Mae'r cynigion yn ymwneud â dysgwyr oed ysgol statudol a phlant 3-4 oed mewn ysgolion neu leoliadau nas cynhelir.

Mae sybsidiaredd yn allweddol i fframwaith y cwricwlwm newydd. Mae'r canllawiau wedi'u datblygu i helpu ysgolion i gynllunio eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu eu hunain. Mae hyn yn galluogi ymarferwyr i gynllunio dysgu sy'n briodol i anghenion eu dysgwyr. Bydd trefniadau ar wahân yn cael eu sefydlu ar gyfer y sector nas cynhelir a bydd y cynigion hyn yn cael eu cyhoeddi yn y dyfodol. Mae hyn yn cydnabod y bydd angen cymorth ychwanegol a phenodol ar leoliadau nas cynhelir.

Mae Sgrinio Asesiad Effaith ar Iechyd wedi'i gynnal, gweler Atodiad F.

**2.6 Preifatrwydd**

Nid oes angen asesiad o'r effaith ar breifatrwydd ar gyfer y cynigion hyn gan nad ydynt yn ymwneud â chasglu na defnyddio gwybodaeth bersonol.

Nid yw'r newidiadau i'r cwricwlwm ac asesu yn rhoi unrhyw bwerau prosesu data personol, ac nid ydynt ychwaith yn effeithio ar hawliau a rhyddid unigolion - nac yn eu newid. Gan nad yw'r cynnig hwn yn ymwneud â chasglu neu ddefnyddio gwybodaeth bersonol, nid yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data a bennir gan erthygl 35(1), 35(3) a 35(4) o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Yr ysgolion eu hunain sy'n gyfrifol am lunio rheolau sy'n ymwneud â rheoli gwybodaeth, gan gynnwys data personol. Fel rheolwyr data, ysgolion ac awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth â GDPR. Nid yw'r GDPR yn fater datganoledig a goruchwylir cydymffurfiaeth gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (awdurdod annibynnol y DU a sefydlwyd i gynnal hawliau gwybodaeth).

## ADRAN 3. BETH FYDD YR EFFAITH AR LES DIWYLLIANNOL A'R GYMRAEG?

### 3.1 Lles Diwylliannol

**3.1a Sut y gall y cynnig gyfrannu at y nod o hyrwyddo a diogelu diwylliant a threftadaeth ac annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden? (Gweler adran 3.2 ar gyfer y Gymraeg)**

Mae'r cwricwlwm newydd yn dileu'r gwahaniaeth presennol rhwng pynciau craidd a phynciau sylfaen ac mae'n rhoi statws cyfartal i bob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad. Mae hyn yn cynnwys y Celfyddydau Mynegiannol, Iechyd a Lles, y Dyniaethau ac Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Bydd yn statudol i ddysgwyr barhau i astudio elfennau o bob MDaPh hyd at 16 oed.

Mae'r canllawiau'n darparu y dylai cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol gael eu cynnwys ar draws dysgu. Bydd hyn:

- yn hyrwyddo dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth leol/Cymru, ac ymgysylltiad â hyn
- yn helpu dysgwyr i ddeall hunaniaethau, diwylliannnau a gwerthoedd amrywiol yng Nghymru a thu hwnt.

Yn benodol, mae'r meysydd dysgu a phrofiad yn cynnwys canllawiau ar hanes, daearyddiaeth, y dyniaethau ehangach; llenyddiaeth ac iaith a'r celfyddydau, sydd oll yn cefnogi dysgwyr i ymgysylltu â diwylliant.

Mae'r canllawiau'n nodi y dylai dysgwyr gael y cyfle i ddatblygu eu hunaniaeth drwy archwilio cwestiynau ynghylch diwylliant, iaith a pherthyn yn eu cymdogaeth ac yng Nghymru. Dylai hyn roi dealltwriaeth iddynt o amrywiol hanesion, diwylliannau, gwerthoedd a threftadaeth y Gymru fodern, a'r cyfraniad y gallant ei wneud i'w cymunedau.

Mae canllawiau'r cwricwlwm newydd yn nodi y dylid, wrth ddylunio a datblygu cwricwlwm ar lefel ysgol, ymdrin â chyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol mewn modd sy'n briodol ac yn ystyrlon i bob MDaPh, gan gyfrannu'n weithredol at hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru.

Mae'r canllawiau mewn perthynas â'r Celfyddydau Mynegiannol yn darparu cyfleoedd i annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau. Mae'r canllawiau ar y MDaPh Iechyd a Lles yn darparu cyfleoedd drwy weithgarwch corfforol i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chwaraeon.

Mae canllawiau ar gyfer MDaPh y Dyniaethau yn rhoi cyfle i bob dysgwr ddysgu am eu treftadaeth a'u hymdeimlad o le drwy astudio eu cynefin a Chymru. Mae hyn yn hybu dealltwriaeth o'r modd y mae pobl Cymru, ei chymunedau, diwylliant, tirwedd, adnoddau a diwydiannau yn cydberthyn â gweddill y byd.

Mae'r MDaPh Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu hefyd yn cynnig cyfleoedd i ddysgu am ddiwylliant a threftadaeth drwy gyfrwng iaith a llenyddiaeth.

**3.1b A yw'n bosibl y gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar hyrwyddo a gwarchod diwylliant a threftadaeth, neu ar allu pobl i gymryd rhan mewn celfyddydau, chwaraeon a hamdden? Os felly, pa gamau y gallwch chi eu cymryd i osgoi neu leihau'r effaith honno (er enghraifft, drwy ddarparu cyfleoedd amgen)?**

Datgelodd peth adborth bryder am le hanes Cymru yng nghanllawiau'r cwricwlwm. Rydym wedi ceisio lliniaru hyn drwy ddarparu canllawiau ychwanegol ar hyn yn yr adran 'Cynllunio eich Cwricwlwm'. Rydym hefyd yn adolygu sut y gellir datblygu adnoddau i gefnogi ac annog dysgu mewn perthynas â diwylliant a threftadaeth.

Iechyd a Lles: Mae adborth wedi awgrymu bod rhywfaint o ganfyddiad y gallai’r pwys ar weithgarwch corfforol, ac yn enwedig chwaraeon, leihau. Rydym wedi ceisio pwysleisio yn 'Cynllunio eich Cwricwlwm' bwysigrwydd gweithgarwch corfforol fel rhan o gwricwlwm yr ysgol. Mae'n elfen o ddatganiad o'r hyn sy'n bwysig, a fydd yn orfodol ar gyfer cwricwlwm ysgol neu leoliad.

### 3.2 Y Gymraeg

Gellir gweld Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn Atodiad C.

## ADRAN 4. BETH FYDD YR EFFAITH AR LES ECONOMAIDD?

### 4.1 Busnes, y cyhoedd ac unigolion

**Sut (p’un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar fusnes a'r cyhoedd?**

Mae canllawiau'r cwricwlwm yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu:

- fel cyfranwyr creadigol mentrus (un o'r pedwar diben), sy’n cefnogi arloesi. Bydd angen i gwricwla ysgolion alluogi dysgwyr i wneud cynnydd tuag at hyn.
- ymwybyddiaeth o gyfleoedd sy'n gysylltiedig â gyrfa a gwaith
- profiadau, gwybodaeth a sgiliau y gellir eu trosglwyddo i'r gweithle
- sgiliau trawsgwricwlaidd, sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, sydd oll yn hanfodol ar gyfer gwaith
- dysgu drwy gyfleoedd i weithio gyda busnesau – mae hyn wedi'i gynnwys yn yr elfen 'Cynllunio eich Cwricwlwm' o'r canllawiau.

Mae addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith wedi'u gwreiddio yn y canllawiau i annog dysgu ar draws pob maes, gan sicrhau bod dysgwyr yn cael cipolwg ar waith a gyrfaoedd ac yn meithrin sgiliau cyflogadwyedd, gydag elfennau penodol o'r dysgu hwn yn rhan o'r MDaPh Iechyd a Lles. Mae manylu ar hyn ar draws y canllawiau yn cefnogi ymagwedd gyfannol, a hynny o'r dechrau, yn y blynyddoedd cynnar.

Fel thema drawsbynciol, mae risg y gallai darparu ar gyfer gyrfaoedd o fewn y canllawiau cyffredinol arwain at ganfyddiad bod llai o bwys yn cael ei roi arno. I liniaru hyn, caiff canllawiau statudol penodol pellach ar yrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith eu datblygu.

Bydd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn cael eu nodi fel tri sgil trawsgwricwlaidd, gan sicrhau bod yr hanfodion yn eu lle. Bydd y sgiliau hanfodol - meddwl yn feirniadol a datrys problemau, cynllunio a threfnu, creadigrwydd ac arloesi ac effeithiolrwydd personol - hefyd yn cael eu hymgorffori ar draws yr holl Feysydd Dysgu a Phrofiad.

O fewn MDaPh y Dyniaethau, mae busnes yn un o'r disgyblaethau a gynhwysir ac felly mae'n darparu ystod eang o themâu perthnasol o fewn cyd-destun y MDaPh, a nodir yn 'Cynllunio eich Cwricwlwm'.

Ymgysylltwyd â busnesau fel rhan o'r cam adborth o’r gwaith o gyd-adeiladu, ac ystyriwyd eu barn ar y cwricwlwm a'r trefniadau asesu drafft fel rhan o waith mireinio pellach yn 2019. Mae’n anodd mesur yn empirig ar hyn o bryd, ond dylai'r pwyslais ar bedwar diben y cwricwlwm, ochr yn ochr â'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, profiadau gwaith a gyrfaoedd ehangach, a chynnydd mewn ymgysylltu rhwng cyflogwyr ac ysgolion er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu sicrhau bod pob dysgwr mewn sefyllfa well i fynd i fyd gwaith ôl-16.

### 4.2 Y sector cyhoeddus, gan gynnwys llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill

**Sut (p'un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar y sector cyhoeddus?**

Mae'r cynigion yn nodi gofynion a fydd yn effeithio'n sylweddol ar elfennau o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys effeithiau uniongyrchol gofynion deddfwriaethol newydd ar awdurdodau lleol, ysgolion, penaethiaid a chyrff llywodraethu; ac effeithiau canlyniadol ar gonsortia rhanbarthol, Estyn a Chymwysterau Cymru. Er y rhagwelir y bydd yr effeithiau hyn yn gadarnhaol o ran gwella dysgu a chyrhaeddiad dysgwyr, fe allai fod effeithiau 'negyddol' tymor byrrach yn deillio o'r fath broses rheoli newid sylweddol. Mae cymorth ar gael, a chaiff y cymorth hwn ei ddatblygu ymhellach, i helpu i liniaru rhai anawsterau posibl sy'n codi o'r broses, ond caiff y risg ei chydnabod a bydd yn destun monitro ac adolygu parhaus.

Bydd cyrff eraill yn y sector cyhoeddus sydd â diddordeb mewn addysg hefyd yn cael eu heffeithio i raddau llai, gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Cadw, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Bydd sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch hefyd yn cael eu heffeithio'n gadarnhaol wrth i ddysgwyr wneud cynnydd y tu hwnt i 16. Yn ogystal, caiff sefydliadau sy'n ymwneud â hyfforddiant cychwynnol athrawon eu heffeithio drwy'r angen i baratoi'r rheini sy'n newydd i'r proffesiwn addysgu yn unol â gofynion y cwricwlwm newydd. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo gyda'r sefydliadau hynny, gan gynnwys sesiynau ar y cwricwlwm newydd ar gyfer athrawon dan hyfforddiant gyda'r Gweinidog Addysg, swyddogion polisi ac ymarferwyr sy'n ymwneud â'r broses.

Mae ymarferwyr, ysgolion, y sector nas cynhelir, consortia rhanbarthol, Estyn a Chymwysterau Cymru oll wedi bod yn aelodau sefydlog o weithgorau gyda'r dasg o ddatblygu'r cwricwlwm newydd a'r grwpiau llywodraethu rhaglenni ehangach. Mae awdurdodau lleol hefyd wedi bod yn aelodau o grwpiau llywodraethu rhaglenni.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn ymwneud â'r gwaith datblygu, gan gyfrannu at dystiolaeth a gweithgorau, tra bod rhanddeiliaid eraill yn y sector cyhoeddus ehangach wedi cael eu cynnwys drwy sesiynau rhannu gwybodaeth. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi canolbwyntio ar gefnogi'r gwaith o ddatblygu dealltwriaeth y sefydliadau hynny o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd, gan gynnwys egwyddor sybsidiaredd, ynghyd â'u hannog i weithio gydag ymarferwyr yn y gwaith o ddatblygu deunyddiau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd i gefnogi ysgolion. Mae'r broses hon yn mynd rhagddi, a bydd yn parhau drwy'r cyfnod paratoi sy'n arwain at Fedi 2022.

### 4.3 Y Trydydd Sector

**Sut (p’un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar sefydliadau’r trydydd sector a’r hyn y maent yn ei wneud?**

Bydd sefydliadau yn y trydydd sector sydd â diddordeb mewn addysg yn gweld effaith gymedrol, felly hefyd y sefydliadau sy'n dibynnu ar addysg fel ffordd o godi ymwybyddiaeth yn eu maes. Bydd sefydliadau trydydd sector sy'n gweithio'n uniongyrchol gydag ysgolion hefyd yn cael eu heffeithio yn yr un modd.

Fel rhan o'r dull cyd-adeiladu o ddatblygu'r cwricwlwm newydd, mae grwpiau MDaPh unigol wedi ymgysylltu â chynrychiolwyr y trydydd sector sy’n briodol i’w meysydd. Mae ystod eang o sefydliadau trydydd sector, a’r rheiny’n sefydliadau ar gyfer oedolion a mudiadau plant a phobl ifanc, hefyd wedi bod yn ymwneud â’r datblygiadau fel aelodau o'r grŵp rhanddeiliaid strategol.

Fel gyda'r sector cyhoeddus, bu'r ffocws o ran ymgysylltu â sefydliadau trydydd sector ar helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd, gan gynnwys egwyddor sybsidiaredd, ynghyd â’u hannog i weithio gydag ymarferwyr wrth ddatblygu deunyddiau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd i gefnogi ysgolion. Mae'r broses hon yn mynd rhagddi, a bydd yn parhau drwy'r cyfnod paratoi sy'n arwain at Fedi 2022.

### 4.4 Yr Effaith ar y System Gyfiawnder

Mae'n annhebygol y bydd hyn yn effeithio ar y system gyfiawnder. Felly, nid yw Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder wedi'i gwblhau.

## ADRAN 5. BETH FYDD YR EFFAITH AR LES AMGYLCHEDDOL?

Cynhaliwyd yr asesiadau canlynol yn ôl yr angen: Adnoddau Naturiol; Bioamrywiaeth a'r Newid yn yr Hinsawdd.

### 5.1 Adnoddau Naturiol

#### 5.1a Sut y bydd y cynnig yn cyflawni un neu fwy o'r Blaenoriaethau Cenedlaethol yn y Polisi Adnoddau Naturiol?

Mae'r canllawiau'r cwricwlwm newydd yn cynnwys pwyslais ar fioamrywiaeth ac ecoleg yn amgylcheddau lleol y dysgwyr, tra'n hwyluso golwg ehangach ar adnoddau naturiol y byd hefyd (yn MDaPh y Dyniaethau a MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg). Mynegir hyn mewn datganiadau penodol o'r hyn sy'n bwysig yn y ddau MDaPh, a fydd yn orfodol. Fe'i cynhwysir hefyd yn y canllawiau ehangach ar gyfer y meysydd hyn, gan gynnwys y disgrifiadau dysgu. Er enghraifft, yn Gwyddoniaeth a Thechnoleg, mae'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig am 'bethau byw' yn gofyn am ddealltwriaeth gynyddol soffistigedig o gynefinoedd naturiol a chyd-ddibyniaethau pethau byw, gan arwain at werthuso materion cyfoes sy'n effeithio ar fioamrywiaeth, gan gynnwys ffactorau amgylcheddol a gweithgarwch dynol.

#### 5.1b A yw'r cynnig yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd cenedlaethol canlynol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

Mae'r nodweddion sy'n sail i'r pedwar diben yn cyfrannu at godi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth ac ecoleg. Er enghraifft, drwy ddatblygu dysgwyr i fod yn ddinasyddion moesegol, gwybodus sy'n dangos ymrwymiad i gynaliadwyedd y blaned ac sy'n cydnabod eu dibyniaeth arno; ac sy'n deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth wneud dewisiadau a chymryd camau.

Mae'r canllawiau ar gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn nodi'n glir bod yr amgylchedd yn rhan bwysig o bob un o'r cyd-destunau hyn, gydag effaith ddynol yn goresgyn ffiniau daearyddol a gwleidyddol. Mae hyn yn cynnwys y berthynas rhwng gweithgareddau dynol a'r amgylchedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r canllawiau'n glir y dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ymateb i'r materion a'r heriau sy'n deillio o'r cysylltiadau hyn, gan ystyried sut y maent wedi llunio ein gorffennol a'n presennol, a sut y gallent lunio ein dyfodol.

### 5.2 Bioamrywiaeth

Mae Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth wedi'i ddatblygu yn Atodiad D yn unol ag adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

### 5.3 Y Newid yn yr Hinsawdd

#### 5.3a Datgarboneiddio

**Sut (p’un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar allyriadau yng Nghymru?**

Fel y nodwyd uchod, mae pedwar diben y cwricwlwm, sef y sylfaen ar gyfer yr holl addysgu a dysgu, yn cyfrannu at godi ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd y blaned. Mae hyn yn cynnwys annog dysgwyr i ddeall eu dibyniaeth ar y blaned, a dangos eu hymrwymiad iddi drwy ystyried effeithiau eu gweithredoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai effaith gadarnhaol gymedrol yn deillio o'r trefniadau newydd, er bod hyn yn dibynnu ar fwy o ddealltwriaeth yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiadau.

Ni chynhaliwyd asesiad llawn o'r effaith ar allyriadau gan fod yr effeithiau'n ymwneud â chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, yn hytrach na gweithgarwch sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at ostwng lefelau allyriadau. O fewn canllawiau'r Dyniaethau, nodir y newid yn yr hinsawdd yn benodol yn y datganiad o'r hyn sy'n bwysig: 'Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau ffisegol a gweithredoedd dynol'. Cwmpesir yr agweddau gwyddonol a thechnolegol o fewn y MDaPh hwnnw hefyd, gan ddarparu sail o ddealltwriaeth i effeithio ar ymddygiadau.

### 5.3b Addasu

**Sut (p’un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), ac i ba raddau (effaith sylweddol/gymedrol/bach), y bydd y cynnig yn effeithio ar y gallu i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd?**

Fel y nodwyd uchod o dan 'Datgarboneiddio'.

### 5.4 Asesiad Amgylcheddol Strategol

Nid yw'r cynigion yn debygol o gael effaith ar unrhyw un o'r meysydd allweddol sydd wedi'u rhestru fel rhan o'r rheoliadau (amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgodfeydd, ynni, diwydiant, trafnidiaeth, rheoli gwastraff, rheoli dŵr, twristiaeth, cynllunio gwlad a thref neu ddefnydd tir). O ganlyniad, nid oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol.

### 5.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Ni fydd y cynigion yn effeithio ar unrhyw rai o'r safleoedd a restrir o dan y Rhwydwaith Safleoedd a Warchodir gan Ewrop, ‘Natura 2000’. O ganlyniad, nid oes angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

### 5.6 Asesiad Effaith Amgylcheddol

Ni fydd y cynigion yn effeithio ar yr ardaloedd a restrir. O ganlyniad, nid oes angen Asesiad Effaith Amgylcheddol.

## ADRAN 6. COFNOD O'R ASESIADAU EFFAITH LLAWN SYDD EU HANGEN

| **Asesiad Effaith** | **Ei angen? Bydd / Na fydd** |
|---|---|
| Hawliau Plant | Bydd |
| Cydraddoldeb | Bydd |
| Prawfesur Gwledig | Na fydd – i'w adolygu'n barhaus |
| Iechyd | Na fydd – i'w benderfynu drwy broses sgrinio |
| Preifatrwydd | Na fydd |
| Y Gymraeg | Bydd |
| Asesiad Effaith Rheoleiddiol / Economaidd | Bydd |
| Y System Gyfiawnder | Na fydd |
| Bioamrywiaeth | Bydd |
| Y Newid yn yr Hinsawdd | Na fydd |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol | Na fydd |
| Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | Na fydd |
| Asesiad Effaith Amgylcheddol | Na fydd |

## ADRAN 7. CASGLIAD

### 7.1 Sut mae'r rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi bod yn rhan o'i ddatblygu?

Mae'r gwaith o gynllunio a datblygu'r cwricwlwm wedi'i gyflawni drwy fodel o gyd-adeiladu gyda chynrychiolwyr o'r system addysg yng Nghymru (Estyn, Consortia Rhanbarthol, Cymwysterau Cymru ac ymarferwyr). Wrth wraidd y broses hon mae rhwydwaith cenedlaethol o ymarferwyr – sy’n cynnwys cynrychiolaeth o'r gwahanol fathau o ysgolion yng Nghymru (gwledig, trefol, mawr, bach, cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg, dwyieithog, ysgolion â chymeriad crefyddol, ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig). Fel rhan o'u rôl, mae'r ymarferwyr hyn wedi ymgysylltu â'u dysgwyr yn ogystal â’u hysgolion clwstwr ac ysgolion rhwydwaith i gasglu safbwyntiau drwy gydol y broses. Hefyd, mae rhaglen helaeth o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn parhau gyda dysgwyr, gweithwyr ieuenctid, sefydliadau’r trydydd sector a sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau nodweddion gwarchodedig, Addysg Uwch, Addysg Bellach, busnes a Llywodraethwyr Ysgol.

### 7.2 Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, cadarnhaol a negyddol?

Mae'r cynigion yn ceisio mynd i'r afael â'r agweddau negyddol ar y system addysg bresennol yng Nghymru, a amlinellir yn *Dyfodol Llwyddiannus*, gan geisio adeiladu ar y cryfderau sy’n bodoli, gan gynnwys yr ymrwymiad i degwch. Mae'r cynigion yn canolbwyntio ar ddatblygu cwricwlwm ar gyfer pob dysgwr ym mhob ystafell ddosbarth.

Mae hawliau plant yn un o egwyddorion dylunio allweddol y trefniadau newydd – maent yn rhan annatod o'r pedwar diben ac maent wedi'u cynnwys yn benodol ym MDaPh Iechyd a Lles a MDaPh y Dyniaethau. Caiff y cynigion effaith gadarnhaol ar hawliau plant ac maent yn cyfeirio at ddull cryf sy'n canolbwyntio ar y dysgwr.

Mae'r canllawiau newydd yn ceisio cefnogi diwylliant a threftadaeth yng Nghymru drwy ddarparu y dylai cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol gael eu cynnwys ar draws cwricwlwm ysgol. O fewn MDaPh y Dyniaethau, ceir ffocws penodol ar *gynefin*. Yn y cyd-destun hwn, golyga hyn y lle hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol sydd wedi siapio'r gymuned sy'n byw yno, ac sy’n parhau i’w siapio.

Mae'r cynigion yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â bioamrywiaeth drwy'r pedwar diben, fel man cychwyn ar gyfer yr holl addysgu a dysgu, ac yn benodol yn y MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Mae'r cynigion yn cyfrannu at hyrwyddo'r Gymraeg drwy gynnal ei statws fel rhan o'r cwricwlwm yng Nghymru. Un o nodweddion allweddol y pedwar diben yw datblygu dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffyrdd ac mewn gwahanol leoliadau, a hynny gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg. Bydd y trefniadau newydd yn cefnogi pob dysgwr i gael llwybrau priodol ar gyfer dysgu Cymraeg a Saesneg er mwyn eu galluogi i ddatblygu'r hyder i ddefnyddio'r ddwy iaith mewn bywyd pob dydd; yn ogystal â galluogi ysgolion a lleoliadau i drochi dysgwyr yn llawn yn yr iaith Gymraeg. Y nod yw sicrhau y bydd pob dysgwr yn gallu defnyddio'r Gymraeg pan fydd yn gadael yr ysgol. Mae'r egwyddor hon wrth wraidd diwygio'r cwricwlwm.

**7.3 O ystyried yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig yn:**

> **• sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl i'n hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
>
> **• osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r pedwar diben, fel man cychwyn ar gyfer yr holl addysgu a dysgu, a chyda cefnogaeth gan ddeddfwriaeth, yn cyfrannu at y saith amcan llesiant drwy ddatblygu plant a phobl ifanc fel: dysgwyr uchelgeisiol a galluog; cyfranwyr mentrus, creadigol; dinasyddion egwyddorol, gwybodus; ac unigolion iach, hyderus. Mae'r pedwar diben hefyd yn sicrhau bod trefniadau'r cwricwlwm yn cyfrannu at bedair thema allweddol Llywodraeth Cymru yn *Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol*. Mae'r trefniadau newydd yn rhoi hyblygrwydd i ymarferwyr ddefnyddio eu creadigrwydd a'u crebwyll proffesiynol i gyflwyno cwricwlwm sy'n cefnogi eu dysgwyr a'u cyd-destunau penodol.

Mae'r trefniadau newydd yn cefnogi effeithiau cadarnhaol drwy sicrhau bod y cwricwlwm, ac asesu fel rhan o hyn, yn gynhwysol, yn ymatebol i anghenion dysgwyr yn ddiweddarach mewn bywyd, yn ymgysylltu â phob dysgwr, ac yn seiliedig ar sybsidiaredd i annog perchenogaeth a phenderfyniadau gan ymarferwyr a fydd, yn y pen draw, yn cyflwyno cwricwlwm sy'n briodol ar gyfer eu hystafelloedd dosbarth.

Bydd y cynigion yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y nodau llesiant drwy:

- helpu i sicrhau bod cwricwla ysgolion a lleoliadau yn diwallu anghenion dysgwyr a bod ganddo'r hyblygrwydd i addasu dros amser
- datblygu plant a phobl ifanc fel: dysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau; cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn

llawn mewn bywyd a gwaith; dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd; ac unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas
- cefnogi a pharatoi'r holl ddysgwyr ar gyfer eu bywydau yn nes ymlaen a thorri cylchoedd negyddol sy'n gysylltiedig â chyrhaeddiad.

### 7.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd yn ei flaen a phan y daw i ben?

Cyhoeddwyd canllawiau drafft ym mis Ebrill 2019 i gael adborth fel rhan o'r broses gyd-adeiladu, a oedd yn cynnwys ystod eang o weithgareddau ymgysylltu ar gyfer ymarferwyr a rhanddeiliaid ehangach. Yna, mireiniwyd y canllawiau yn ystod tymor yr Hydref 2019.

Ar yr un pryd, roedd yr ymarferwyr a oedd yn gysylltiedig â datblygu'r drafftiau wedi profi'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yn eu hysgolion, a chyda chlystyrau lleol - roedd yr adborth a gafwyd o wneud hyn hefyd yn sail i waith mireinio pellach.

Mae trefniadau llywodraethu'r rhaglen diwygio addysg yn parhau mewn grym, gan ymgysylltu â chyfranwyr allweddol ym maes addysg yng Nghymru a mannau eraill ar gyfer goruchwylio'r gwaith o fireinio'r cwricwlwm a’r trefniadau asesu, eu cyhoeddi a’u mabwysiadu mewn ysgolion. Mae'r trefniadau llywodraethu hyn yn cynnwys gwaith parhaus y Grŵp Cwricwlwm ac Asesu (sy'n cynnwys arbenigwyr rhyngwladol yn y maes), a'r Grŵp Cynghori Annibynnol, o dan gadeiryddiaeth yr Athro Graham Donaldson.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â rhaglen o gomisiynu ac ariannu ar gyfer ymchwil mewn addysg sy'n gysylltiedig â *Cenhadael ein Cenedl* a diwygio'r cwricwlwm ac asesu - mae rhai allbynnau o hyn eisoes wedi’u cyhoeddi. Bydd hyn yn ffynhonnell barhaus o wybodaeth i gyfrannu at waith polisi ac at raglenni cynorthwyo i roi'r trefniadau newydd ar waith yn llwyddiannus ar draws ysgolion a lleoliadau.

Yn ogystal, bydd y trefniadau gwerthuso a gwella newydd, fel y'u nodir yn *Cenhadaeth ein Cenedl*, yn sail ar gyfer monitro'r system gyfan a chyfathrebu am gynnydd.

Mae rhwydweithiau'n cael eu sefydlu'n genedlaethol i ymgysylltu â'r sector ehangach i sicrhau bod pob ymarferwr yn cael cymorth i ddatblygu ei sgiliau a'i wybodaeth ymhellach er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Rhan o'r cylch gwaith hwn fydd nodi a rhoi mewnbwn ar unrhyw newidiadau a wneir i'r canllawiau yn y dyfodol.

# ASESIADAU EFFAITH LLAWN

## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

### 1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.

Cwricwlwm

Mae’r cynigion yn rhoi'r pedwar diben wrth wraidd Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Dyma'r man cychwyn ar gyfer yr holl addysgu a dysgu. Pedwar diben y cwricwlwm yw bod plant a phobl ifanc yn datblygu fel:

- dysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau;
- cyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus, yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus, sy’n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Disgrifir y pedwar diben drwy nodweddion allweddol sy'n cyfrannu at ddatblygu dinasyddion egwyddorol a gwybodus sy'n 'deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd' ac sy’n 'parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol'.

Mae canllawiau'r cwricwlwm wedi cael eu cynllunio i ddisgrifio continwwm ar gyfer pob dysgwr o 3 i 16 oed. Rhaid i bob ysgol a gynhelir a lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir fabwysiadu cwricwlwm. Rhaid i gwricwlwm a fabwysiedir fodloni'r gofynion cyffredinol canlynol:

- galluogi dysgwyr i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben
- bod yn eang ac yn gytbwys
- bod yn addas ar gyfer dysgwyr o wahanol oedrannau, galluoedd a doniau
- darparu ar gyfer dilyniant priodol i ddysgwyr ac yn cynnwys ystod o ddarpariaeth i sicrhau hyn (yn gysylltiedig ag oedrannau, galluoedd a doniau).

Bydd angen i gwricwlwm gwmpasu'r meysydd canlynol:

- Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae **Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru** wedi'i gynllunio i helpu ymarferwyr i ddatblygu dull mwy integredig o ddysgu. Mae'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) yn dwyn ynghyd ddisgyblaethau cyfarwydd ac yn annog cysylltiadau cryf ac ystyrlon ar draws gwahanol ddisgyblaethau. Bydd y disgyblaethau unigol hynny'n dal i chwarae rhan bwysig, yn enwedig wrth i ddysgwyr wneud cynnydd a dechrau arbenigo. Fodd bynnag, mae'r canllawiau'n hyrwyddo cydweithio a chynllunio, dysgu ac addysgu traws-ddisgyblaethol, o fewn ac ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin cysylltiadau ar draws eu dysgu a chyfuno **profiadau, gwybodaeth** a **sgiliau** gwahanol.

Mae cefnogi dysgwyr i wneud cynnydd yn un o'r ffactorau allweddol sy'n ysgogi Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Adlewyrchir hyn yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig; y disgrifiadau dysgu ar gyfer pob un o'r datganiadau hyn, a dyma hefyd yw prif ddiben asesu. Dylai cynllunio’r cwricwlwm, yr ystafell ddosbarth ac asesu fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth o sut mae cynnydd dysgwyr yn hanfodol i ddysgu ac addysgu. Yn hytrach na nodi deilliannau mewn cyfnodau allweddol, mae'r canllawiau'n disgrifio dilyniant trwy:

- **egwyddorion dilyniant** ar gyfer y cwricwlwm yn ei gyfanrwydd ac ar gyfer pob MDaPh unigol. Mae'r rhain yn cyfleu'r ffyrdd y mae dysgwyr yn gwneud cynnydd yn eu dysgu ac yn cyfrannu at **y pedwar diben**. Ymgorfforir y rhain mewn cod statudol pan ddaw Bil y Cwricwlwm ac Asesu yn gyfraith.

- **disgrifiadau dysgu** sy'n rhoi arweiniad ar sut y dylai dysgwyr wneud cynnydd o fewn pob datganiad o'r hyn sy'n bwysig wrth iddynt deithio drwy'r continwwm dysgu. Trefnir y rhain mewn i bum cam dilyniant sy'n darparu pwyntiau cyfeirio ar gyfer cyflymdra'r dilyniant hwnnw. Mynegir y disgwyliadau hyn o safbwynt y dysgwr ac maent wedi'u fframio'n fras er mwyn iddynt allu cynnal dysgu dros gyfres o flynyddoedd. Er bod y continwwm dysgu'r un fath ar gyfer pob dysgwr, gallai cyflymder y cynnydd drwyddo fod yn wahanol. O ganlyniad, bras yw'r berthynas rhwng y camau cynnydd ac oedran. Hynny yw, maent yn cyfateb yn fras i ddisgwyliadau yn 5, 8, 11, 14 ac 16 oed.

Golyga hyn fod pob dysgwr yn gwneud cynnydd ar hyd yr un continwwm, waeth pa anghenion dysgu ychwanegol a allai fod ganddynt. Bydd dull mwy personol o ddysgu yn helpu pob dysgwr i symud ymlaen ar gyflymder priodol, a chael ei herio'n briodol.

Nododd *Dyfodol Llwyddiannus* fod y system bresennol bellach yn canolbwyntio ar lunio barn gyffredinol am berfformiad dysgwyr; hynny yw, llunio barn i gyd-fynd gymaint â phosib. Canlyniad hyn yw nad oes digon o bwys ar ddilyniant, gydag amrywiadau eang mewn cynnydd mewn gwahanol agweddau ar ddysgu yn cael eu cuddio. Mae'r fframwaith yn cynnig dileu'r system bresennol o 'lefelau'.

Mae dilyniant mewn dysgu yn broses o ddatblygu'n fwyfwy soffistigedig, yn hytrach na phalu trwy corff o gynnwys. Nid yw dilyniant yn unionlin - mae gwahanol ddysgwyr yn debygol o wneud cynnydd mewn ffyrdd gwahanol iawn. Dylai asesu, fel rhan o gwricwlwm yr ysgol, gydnabod hyn.

Bydd y ffocws yn awr ar asesu parhaus gyda dysgwyr yn cael eu hasesu mewn perthynas â chwricwlwm yr ysgol, a fydd wedi'i gynllunio i adlewyrchu egwyddorion cenedlaethol dilyniant, gan ddefnyddio'r disgrifiadau dysgu. Dylai ymarferwyr asesu pob dysgwr ar draws y continwwm 3 i 16 oed yn seiliedig ar y dilyniant a fynegir yng nghwricwlwm yr ysgol. Wrth wneud hynny, dylent ystyried anghenion amrywiol dysgwyr unigol.

Ni ddylai ysgolion ymgymryd â gweithgareddau asesu penodol ym mhob cam cynnydd er mwyn llunio barn am ddilyniant dysgwr ar oedran neu ar adeg benodol, ac nid yw'r disgrifiadau dysgu yn gyfres o feini prawf y dylid asesu'n uniongyrchol yn eu herbyn – yn wir, ni allant gael eu bodloni gyda thasgau asesu unigol.

Gan weithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd Plant, rydym wedi mireinio'r canllawiau ar ymgorffori addysg hawliau dynol yng nghwricwla ysgolion. Mae hyn yn cefnogi ysgolion i gynnwys addysg hawliau dynol a dull seiliedig ar hawliau yn eu gwaith o gynllunio a datblygu cwricwlwm ar lefel ysgol.

Bydd angen i gwricwla ysgolion fod yn eang, yn gytbwys, yn gynhwysol ac yn heriol. Un o'r pedwar diben yw y bydd pob plentyn a pherson ifanc yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu hoes. Mae hyn yn cynnwys gosod safonau uchel a cheisio cefnogi anghenion dysgwyr mwy abl a thalentog, gan fwynhau'r her.

Mae polisïau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a diwygio'r cwricwlwm wedi'u llunio ar y cyd â rhanddeiliaid ac maent yn elfennau allweddol o *Genhadaeth ein Cenedl* i godi safonau a lleihau'r bwlch cyrhaeddiad. Mae'r system ADY newydd, gwaith diwygio'r cwricwlwm ac asesu a'r rhaglen ddysgu broffesiynol ehangach yn cael eu halinio.

O 14 oed ymlaen, bydd pobl ifanc yn dechrau arbenigo a gwneud dewisiadau. Ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed, mae'n rhaid i ysgol ddylunio cwricwlwm fel ei fod, yn ogystal ag elfennau gorfodol y cwricwlwm a sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol, yn darparu:

- dewis i ddysgwyr o ran y dysgu arall y byddant yn ei wneud, ond mewn ffordd sy'n sicrhau bod pob dysgwr yn dal i ymgymryd â pheth dysgu ym mhob maes dysgu a phrofiad
- elfennau eraill y mae'r ysgol yn gofyn i bob dysgwr (neu rai grwpiau o ddysgwyr) ymgymryd â nhw.

Bydd cymwysterau'n cael eu datblygu i adlewyrchu dysgu.

<u>Asesu</u>

Bydd continwwm dysgu o 3 i 16 oed. O fewn ysgolion bydd asesu yn broses barhaus sy'n cael ei hymgorffori yn yr arferion o ddydd i ddydd – a bydd yn rhan hanfodol o'r broses ddysgu.

O fewn y canllawiau asesu, disgrifir asesu bellach fel proses barhaus sy'n gynhenid i gynllunio'r cwricwlwm ac na ellir ei wahanu o ddysgu ac addysgu. Dylai fod yn agwedd allweddol ar ddylunio'r cwricwlwm, yn hytrach na bod yn broses annibynnol.

Mae'r canllawiau asesu yn disgrifio'n glir ddiben asesu fel un sy'n cefnogi dilyniant pob dysgwr unigol mewn perthynas â'r continwwm 3-16 oed. Fel rhan o hyn, nodwyd tair prif rôl ar gyfer asesu:

- Cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd
- Nodi, casglu a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros gyfnod o amser
- Deall cynnydd grwpiau er mwyn myfyrio ar arferion

Wrth wraidd cefnogi dilyniant dysgwyr mae ymgysylltu gweithredol a rheolaidd rhwng y dysgwr a'r ymarferwr. Mae deall y canlynol yn allweddol i hyn:

- Ym mhle mae dysgwyr o ran eu dysgu
- I ble mae angen iddynt fynd o ran eu dysgu
- Beth sydd angen ei wneud er mwyn iddynt gyrraedd yno, gan ystyried unrhyw rwystrau i'w dysgu.

Bydd asesu nid yn unig yn ystyried deilliannau dysgu - hynny yw, yr hyn y mae dysgwr wedi'i ddysgu - ond dylai hefyd ystyried y broses ddysgu, er mwyn deall sut y mae dysgwr wedi dysgu, gan ganiatáu addasu arferion dyddiol yn unol â hyn.

O dan y Cwricwlwm Newydd i Gymru bydd ymagwedd ehangach at bontio, gan gefnogi dysgwyr ar hyd y continwwm dysgu, wrth iddyn nhw symud rhwng grwpiau gwahanol, dosbarthiadau gwahanol, blynyddoedd gwahanol a lleoliadau gwahanol (gyda phontio ar hyn o bryd, mae'r prosesau'n canolbwyntio'n bennaf ar y dysgwyr sy'n symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd). Fel rhan o hyn, dylai sicrhau lles pob dysgwr fod yn rhan bwysig ac annatod o'r broses, gan gydnabod anghenion unigolion, tra hefyd yn cefnogi parhad a dilyniant yn eu dysgu.

Rydym eisoes yn gwneud newidiadau i'n profion cenedlaethol, ac rydym wedi cyflwyno asesiadau personol ar-lein. Diben yr asesiadau personol ar-lein statudol hyn yw helpu i symud dysgu ymlaen drwy gefnogi'r dysgwr a'r ymarferwr i ddeall sut mae sgiliau darllen a rhifedd y dysgwr yn datblygu a beth ddylai'r camau nesaf fod. Mewn asesiadau personol neu 'addasol', dewisir y cwestiynau’n seiliedig ar ymateb y dysgwr i'r cwestiwn blaenorol. Mae hyn yn rhoi profiad asesu unigol ac yn teilwra lefel yr her i bob dysgwr. Mae gan ysgolion lawer mwy o reolaeth dros yr asesiadau hyn a gallant benderfynu pryd y byddai dysgwr, neu grwpiau o ddysgwyr, yn cael y budd mwyaf o'r asesiad, yn wahanol i'r profion cenedlaethol cyfredol lle mae cyfnod penodol ar gyfer eu cynnal.

*Tystiolaeth ac Ymgynghori*

Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru (yr Adolygiad), argymhellodd *Dyfodol Llwyddiannus* egwyddorion cynllunio cwricwlwm a oedd yn amlinellu y dylai unrhyw strwythur arfaethedig fodloni nifer o feini prawf, gan gynnwys rhoi hawliau plant wrth galon y cwricwlwm.

Gwnaeth yr Adolygiad alwad genedlaethol am dystiolaeth, gan annog rhanddeiliaid o bob rhan o Gymru i gyflwyno eu safbwyntiau a helpu i lunio canlyniad yr Adolygiad. Er mwyn ysgogi dadl a thrafodaeth, roedd y cwestiynau a gynhwyswyd yn yr alwad am dystiolaeth yn fwriadol yn eang ac yn benagored ac yn cynnwys cwestiynau megis 'Beth yw'r tri pheth gorau am addysg yng Nghymru?' Cafwyd dros 700 o ymatebion, gyda dros 300 ohonynt gan ddysgwyr.

Pryder sy'n codi dro ar ôl tro ynghylch y dysgwyr a siaradodd â'r tîm adolygu oedd eu canfyddiad bod y cwricwlwm yn hen iawn o ran technoleg ddigidol. Roedd cynrychiolwyr

busnes yn pryderu yn yr un modd. Yn eu barn nhw, mae'r gallu i ddefnyddio technoleg yn greadigol ar gyfer ymchwil a datrys problemau yn gymwyseddau allweddol yr oeddent am eu gweld mewn darpar gyflogeion. Roedd *Dyfodol Llwyddiannus* yn argymell y dylai cymhwysedd digidol gael yr un statws â llythrennedd a rhifedd fel cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd. Cafodd y broses o ddatblygu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol ei blaenoriaethu a'i chyflymu gan ei chyflawni ym mis Medi 2016 i gefnogi cymhwysedd digidol mewn ysgolion.

Roedd dysgwyr yn enwedig, ond nid yn unig, hefyd am weld mwy o ffocws ar gymwyseddau cymdeithasol cyffredinol (sgiliau bywyd a hyder personol, addysg bersonol a chymdeithasol, sgiliau sylfaenol (h.y. llythrennedd a rhifedd), a mwy o addysg alwedigaethol a chyfarwyddyd gyrfaoedd). Roedd rhanddeiliaid o'r farn y dylai ysgolion fod yn gwneud mwy na dim ond rhoi gwybodaeth. Er bod dysgu llwyddiannus yn ganlyniad gwerthfawr iawn i addysg gan yr holl randdeiliaid (gan gynnwys dysgwyr), roedd hefyd ystod o ganlyniadau eraill. Roedd pawb yn ystyried bod cymwyseddau cymdeithasol cyffredinol, sgiliau bywyd a hyder personol yn bethau pwysig i'w caffael yn yr ysgol. Mae'r safbwyntiau hyn wedi'u hadlewyrchu yn y cynigion ar gyfer sgiliau trawsgwricwlaidd statudol (Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol); ac wrth wreiddio sgiliau hanfodol yn y canllawiau. Mae cynnwys MDaPh sy'n canolbwyntio ar Iechyd a Lles ac sy'n gyfartal o ran statws i'r Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill hefyd yn adlewyrchu'r pwyslais y mae dysgwyr yn ei roi ar addysg bersonol a chymdeithasol.

Roedd plant a phobl ifanc am i wersi fod yn fwy perthnasol a deniadol, gyda gwersi mwy ymarferol, mwy o hwyl, mwy o ryngweithio, a mwy o weithgareddau y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae yna ymdeimlad bod brwdfrydedd mwy cyffredinol dros ddysgu wedi ei aberthu yn y ras am gymwysterau.

Drwy'r broses ddylunio, ymgynghorwyd yn llawn ag amrywiaeth o ysgolion a lleoliadau. Mae gwahanol leoliadau gwahanol wedi'u cynnwys i sicrhau bod trefniadau'r cwricwlwm newydd yn hygyrch i bob dysgwr, gan gynnwys lleoliadau'r Cyfnod Sylfaen a grwpiau â ffocws ADY. Er enghraifft, mae cynrychiolaeth o ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ysgolion arbennig ac ymarferwyr y cyfnod sylfaen ar y Rhwydwaith Ysgolion Arloesi. Mae'r model datblygu hwn wedi ysgogi ymarferwyr i ymgysylltu â'r dysgwyr ar y cynigion sy'n cael datblygu ar gyfer y cwricwlwm ac mae wedi bwydo hyn yn ôl i'r broses ddylunio. Yn ogystal, mae prosiect camau (a arweinir gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Glasgow) i gefnogi datblygiad dilyniant yn y cwricwlwm yn datblygu pecyn

cymorth i ymarferwyr ei ddefnyddio wrth gynllunio'r cwricwlwm (gan gynnwys Llais y Dysgwr).

Yn ystod y cam adborth, gwahoddwyd y dysgwyr i roi eu barn a'u hadborth ar drefniadau'r cwricwlwm newydd. I gefnogi hyn:

- Roedd y dysgwyr yn gallu rhoi adborth ar-lein
- Cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda nhw ar draws Cymru ac ystyriwyd y deilliannau fel rhan o'r cam adborth
- Datblygwyd pecyn cymorth ar gyfer arweinwyr grwpiau ledled Cymru i gynnal eu grwpiau ffocws eu hunain i gefnogi dysgwyr gyda'r cwricwlwm newydd, yn enwedig drwy gynghorau ysgol.

Llywiwyd y gwaith o fireinio canllawiau'r cwricwlwm yn uniongyrchol gan y dadansoddiad o'r cam adborth, ac mae hyn bellach wedi'i gyhoeddi.

**2. Esboniwch sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.**

Mae'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu arfaethedig yn cyfrannu at yr erthyglau canlynol yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn:

- Erthygl 28 – Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.
- Erthygl 29 – Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalentau pob plentyn yn llawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, a'u diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod anghenion dysgwyr wrth galon y cwricwlwm newydd. Mae cynllun y cwricwlwm newydd yn *Dyfodol Llwyddiannus* yn nodi deg egwyddor ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm, y mae un ohonynt yn canolbwyntio ar gynwysoldeb a hawliau'r plentyn: *'…ystyried ei farn* [hynny yw, barn pob plentyn a person ifanc] *yng nghyd-destun Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), a barn rhieni, gofalwyr a chymdeithas ehangach'.*

Bydd y pedwar diben wrth wraidd dysgu a phrofiad pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru, beth bynnag yw eu hysgol neu leoliad addysgol a gynhelir. Yn benodol, mae'r pedwar diben yn cydnabod rôl hawliau plant – bydd pob plentyn a pherson ifanc yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus: sy'n parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel

aelod o gymdeithas amrywiol; ac sy'n deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd.

Mae canllawiau cyffredinol yn rhoi canllawiau i ysgolion ar:

- **ddysgu am hawliau dynol:** deall hawliau dynol, a ffynonellau'r hawliau hynny gan gynnwys *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*
- **dysgu drwy hawliau dynol:** datblygu gwerthoedd, agweddau ac ymddygiadau sy'n adlewyrchu gwerthoedd hawliau dynol
- **dysgu ar gyfer hawliau dynol:** cymhelliant gweithredu cymdeithasol a grymuso dinasyddiaeth weithredol i hybu parch tuag at hawliau pawb.

Mae canllaw i blant a phobl ifanc hefyd wedi'i ddatblygu i'w gyhoeddi ar y cyd â chanllawiau'r cwricwlwm.

Mae hawliau plant hefyd yn rhan o ganllawiau’r MDaPh Iechyd a Lles a MDaPh y Dyniaethau. Mae’r hawliau wedi’u cynnwys yn y datganiadau gorfodol o’r hyn sy'n bwysig. Mae’r hawliau hefyd wedi'u cynnwys yn y disgrifiadau dysgu yn y canllawiau.

## B. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

**1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

Mae'r cwricwlwm a’r trefniadau asesu yn cael eu cynllunio a'u datblygu i fod yn hygyrch i bob dysgwr ym mhob ystafell ddosbarth o 3 i 16 oed. Ategir hyn gan y gweithgarwch galluogi sy'n digwydd fel yr amlygir yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl* i greu ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth, tegwch a lles.

Bydd y trefniadau yn caniatáu i ysgolion ac ymarferwyr gynnwys eu cyd-destunau lleol yn eu haddysgu, dysgu a’u profiadau er mwyn sicrhau tegwch ymhlith pob grŵp o ddysgwyr.

Mae fframwaith y cwricwlwm yn hyrwyddo tegwch ymhlith dysgwyr drwy ganolbwyntio ar:

- y pedwar diben ar gyfer datblygu dysgwyr - man cychwyn yr holl addysgu a dysgu
- mae nodweddion y pedwar diben yn amlygu nodweddion penodol sy'n cefnogi cydraddoldeb, ee. dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n parchu anghenion a hawliau pobl eraill fel aelodau o gymdeithas amrywiol
- meysydd dysgu a phrofiad a'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a fydd yn rhan orfodol o gwricwlwm ysgol ac a fydd yn rhoi cydraddoldeb i Iechyd a Lles gyda meysydd dysgu a phrofiad eraill y cwricwlwm.

Drwy ddarparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb orfodol hyd at 16 oed, bydd dysgwyr yn gallu archwilio sut mae deddfau a pholisïau yn cyfrannu at degwch a hawliau dynol mewn perthynas â rhyw, rhywedd, rhywioldeb a pherthnasoedd.

Mae'r canllawiau asesu wedi cael eu datblygu yn y fath fodd fel ei bod yn briodol i bob dysgwr, beth bynnag fo'i oedran, ei gam datblygu neu p’un a oes ganddo unrhyw anghenion ychwanegol ai peidio. Disgrifir dilyniant fel rhywbeth sy'n unigryw i bob unigolyn, a thrwy’r canllawiau cyfan cyfeirir at gymorth a her briodol, gan ystyried unrhyw rwystrau a allai fod yn wynebu unigolyn o ran ei ddysgu.

Yn ogystal, dylai asesu alluogi ysgolion i ddeall a yw gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn gwneud y cynnydd disgwyliedig. Bydd hyn yn helpu ysgolion i sicrhau bod eu cwricwlwm, a'u dysgu a'u haddysgu, yn helpu i godi safonau yn ogystal â helpu i wella cyrhaeddiad dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig.

**Cofnod o effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig**:

## Oedran (gan gynnwys plant hyd at 16 oed)

Bydd Fframwaith y Cwricwlwm yn berthnasol i bob dysgwr mewn ysgolion neu leoliadau a ariennir nas cynhelir o 3 i 16 oed. Bydd y fframwaith yn cefnogi ysgolion i ddatblygu cwricwlwm i roi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar ddysgwyr ar gyfer eu bywyd yn nes ymlaen, gan eu cynorthwyo i ddatblygu yn unol â'r pedwar diben a'r nodweddion cysylltiedig. Felly, disgwylir i'r fframwaith gael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr. Caiff y cwricwlwm newydd ei gyflwyno'n raddol o 2022 ymlaen, felly caiff ei gyflwyno'n llawn i ddysgwyr sydd ar hyn o bryd ym Mlwyddyn 4 ac yn is.

Rhesymau dros y penderfyniad a chamau lliniaru

Mae'r cwricwlwm newydd wedi'i gynllunio'n benodol i alluogi dysgwyr yng Nghymru i wireddu pedwar diben y cwricwlwm newydd. Ymgysylltwyd â dysgwyr yn ystod y cam adborth i geisio eu barn a'u mewnbwn. Bydd ysgolion yn cael eu cynorthwyo i ymgysylltu â'r cwricwlwm newydd ac i gynllunio ar ei gyfer, er mwyn paratoi ar gyfer dechrau cyflwyno'r rhaglen yn 2022.

## Anabledd

Yn 2017, roedd cyrhaeddiad (o ran y Dangosydd Pynciau Craidd / Dangosydd y Cyfnod Sylfaen) disgyblion ar y Gofrestr Anghenion Addysgol Arbennig yn is yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 a 3 o gymharu â'r holl ddisgyblion[1].

Tabl 1: Canran y disgyblion ar y gofrestr AAA sy'n cyflawni'r deilliant neu'r lefel ddisgwyliedig yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn 2017.

| | **Disgyblion ar y gofrestr AAA** | **Holl ddisgyblion** |
|---|---|---|
| Canran y disgyblion yn CA3 sy'n cyflawni o leiaf y lefel ddisgwyliedig (L5) mewn asesiad athrawon ar gyfer y Dangosydd Pynciau Craidd | 62.4% | 87.7% |

[1] https://gov.wales/statistics-and-research/

| | | |
|---|---|---|
| Canran y disgyblion yn CA2 sy'n cyflawni o leiaf y lefel ddisgwyliedig (L4) mewn asesiad athrawon ar gyfer y Dangosydd Pynciau Craidd | 65.3% | 89.7% |
| Canran y disgyblion a lwyddodd i gyflawni'r deilliant disgwyliedig (deilliant 5) o leiaf mewn asesiadau athrawon ar gyfer Dangosydd y Cyfnod Sylfaen. | 57.8% | 87.4% |

Ffynhonnell: https://gov.wales/statistics-and-research/

Mae fframwaith y cwricwlwm yn rhoi'r hyblygrwydd i ymarferwyr ddarparu cwricwlwm sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr yn eu cyd-destun penodol; ac i gael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr anabl. Mae hyn yn galluogi ymarferwyr i addasu'r cwricwlwm yn eu hysgol i gefnogi anghenion a diddordebau eu dysgwyr a'u cymunedau, gan gynnwys dysgwyr anabl a dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Rhesymau dros y penderfyniad a chamau lliniaru

O dan y fframwaith, mae'n rhaid i gwricwlwm ysgol adlewyrchu anghenion a dyheadau pob dysgwr. Mae'r canllawiau'n nodi y dylai gweledigaeth ysgol ar gyfer y cwricwlwm geisio codi'r dyheadau ar gyfer pob dysgwr: er mwyn iddynt gyflawni eu potensial llawn. Mae hyn yn golygu y bydd angen i gwricwla ysgolion gael eu datblygu i fod yn gynhwysol, gan gwmpasu hawl i addysg o safon uchel i bob dysgwr ac ystyried eu barn yng nghyd-destun y CCUHP, a barn rhieni, gofalwyr a'r gymdeithas ehangach.

Mae ysgolion arbennig wedi gallu cyfrannu anghenion eu dysgwyr i mewn i'r dyluniad trwy gynrychiolaeth ar bob grŵp MDaPh, Grŵp y Cwricwlwm ac Asesu, y Grŵp Cydlyniant a'r Grŵp Rheoli.

Y pedwar diben yw'r man cychwyn ar gyfer yr holl addysgu a dysgu ac maent yn berthnasol i bob dysgwr ym mhob ystafell ddosbarth; er enghraifft, unigolion iach, hyderus sy'n meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i reoli bywyd bob dydd mor annibynnol ag y gallant. Dylai ysgolion ddefnyddio anghenion y dysgwr fel man cychwyn ac addasu'r meysydd dysgu a phrofiad yn unol â hynny. Y bwriad yw y bydd digon o hyblygrwydd yn y cwricwlwm newydd i ddiwallu anghenion mwyafrif helaeth y dysgwyr. Fodd bynnag, yn yr un modd â threfniadau'r cwricwlwm presennol, cydnabyddir mewn achosion eithriadol y gall y cwricwlwm newydd gael ei ddatgymhwyso, dros dro, ar gyfer rhai dysgwyr unigol. Rydym yn cynnig y dylai ysgolion a lleoliadau ddatgymhwyso'r cwricwlwm o dan rai amgylchiadau, a chaniatáu eithriadau dros dro ar gyfer dysgwyr unigol. Bydd y rhain yn

cyd-fynd yn fras â'r dull yn y cwricwlwm presennol. Os caiff Bil y Cwricwlwm ac Asesu ei basio, bydd rhagor o fanylion yn cael eu darparu fel rhan o'r dasg o ddiweddaru'r canllawiau yn 2021.

Mae'r meysydd dysgu a phrofiad wedi'u cynllunio gyda mewnbwn gan ysgolion arbennig i sicrhau eu bod yn berthnasol i bob dysgwr. Mae'r Is-grŵp ADY yn datblygu canllawiau ar gyfer ADY mewn ysgolion prif ffrwd er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm yn gynhwysol.

Mae deunyddiau Ar Drywydd Dysgu yn cynorthwyo ymarferwyr i asesu sgiliau cyfathrebu a gwybyddol cynnar dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog. Fel rhan o'n proses ehangach o ddiwygio'r cwricwlwm a threfniadau asesu, mae ymarferwyr ac arbenigwyr o bob rhan o Gymru wrthi'n diweddaru deunyddiau Ar Drywydd Dysgu. Mae Grŵp Cynghori Ar Drywydd Dysgu wedi'i sefydlu i gefnogi'r gwaith hwn, gyda chynrychiolaeth o ymchwilwyr gweithredol ac ymarferwyr sy'n arbenigo yn y maes. Mae deunyddiau drafft yn cael eu darparu ar gyfer adborth a chaiff y gyfres o adnoddau eu cyhoeddi ar ei ffurf derfynol yn yr haf.

**Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid, a phobl drawsryweddol)**

Gall y cynnig i wneud Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn orfodol gael effaith gadarnhaol ar y dysgwyr hyn gan ei fod yn codi ymwybyddiaeth am berthnasoedd parchus, ymddygiad cadarnhaol a derbyn amrywiaeth. Nod hyn hefyd yw ceisio annog ysgolion i ystyried sut y maent yn darparu cymorth a dysgu i LGBTQI+. Mae hefyd yn ceisio ennyn diddordeb dysgwyr mewn materion fel rhywedd ac anghydraddoldeb a cheisio meithrin agwedd ysgol gyfan at gynhwysiant a goddefgarwch.

Rhesymau dros y penderfyniad a chamau lliniaru

Yn ei adroddiad i Lywodraeth Cymru (2017), Canolbwyntiodd y Panel Arbenigol ar Ryw a Pherthnasoedd ei argymhellion ar wella'r ddarpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn ysgolion ar gyfer pob person ifanc, waeth beth yw eu rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn rhan o'r cwricwlwm i bob dysgwr hyd at 16 oed, gan gyfrannu at y pedwar diben, yn benodol: dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n parchu anghenion a hawliau pobl eraill fel aelod o gymdeithas amrywiol; ac unigolion iach, hyderus sy'n ffurfio perthnasoedd cadarnhaol yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd.

Mae ymchwil a gyflwynwyd yn Adroddiad Ysgolion Cymru Stonewall (2017) yn dangos bod pobl ifanc LGBTQI+ yn dal yn fwy tebygol o ddioddef iechyd meddwl gwael, hunan-niweidio ac iselder. Nod y newidiadau i'r Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm yw ceisio mynd i'r afael â hyn drwy helpu pob dysgwr i deimlo'n ddiogel, yn emosiynol ac yn gorfforol, er mwyn gallu cyflawni ei botensial yn llawn.

## Beichiogrwydd a mamolaeth

Gall y cynigion effeithio'n gadarnhaol ar ddysgwyr sy'n feichiog neu sydd wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar drwy roi hyblygrwydd i ymarferwyr addasu'r cwricwlwm a ddarperir yn yr ystafell ddosbarth i adlewyrchu anghenion eu dysgwyr ac adlewyrchu eu cymuned leol. Yn ogystal, gallai'r Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gael effaith gadarnhaol ar atal beichiogrwydd ymhlith dysgwyr ac, ar wahân i hynny, atal heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.

### Rhesymau dros y penderfyniad a chamau lliniaru

Mae canllawiau'r cwricwlwm yn cael eu cynllunio i gefnogi pob dysgwr ym mhob ystafell ddosbarth ledled Cymru, ac mae hyblygrwydd, drwy'r cynigion deddfwriaethol, i ymarferwyr ddatblygu eu cwricwlwm i gefnogi eu grwpiau o ddysgwyr. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i ddysgwyr ac ysgolion ddatblygu tuag at y pedwar diben mewn ffordd sy’n addas i’w hamgylchiadau.

## Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr ac Ymfudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)

Mae tystiolaeth yn dangos bod cyrhaeddiad disgyblion yng Nghymru yn wahanol yn ôl cefndir ethnig yn y system bresennol (Llywodraeth Cymru, 2018). Er enghraifft, mae Dangosyddion Pynciau Craidd Llywodraeth Cymru yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, a Dangosydd y Cyfnod Sylfaen, yn dangos bod lefelau cyrhaeddiad disgyblion o gefndiroedd Teithwyr, Sipsiwn a Sipsi Roma yn is o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer pob disgybl yng Nghymru[2]. Fodd bynnag, mae disgyblion o gefndiroedd Tsieineaidd neu Tsieineaidd

[2] https://gov.wales/statistics-and-research/

Prydeinig yn perfformio'n well na chyfartaledd Cymru yn erbyn Dangosydd y Cyfnod Sylfaen a'r Dangosydd Pynciau Craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3[3].

**Tabl 2: Canran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant neu'r lefel ddisgwyliedig yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn ôl grŵp ethnig (2015-2017 agregedig).**

| *Cefndir Ethnig* | Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (canran yn cyflawni o leiaf y deilliant disgwyliedig ar draws meysydd dysgu) | Dangosydd Pynciau Craidd yn CA2 (canran sy'n cyflawni o leiaf y lefel ddisgwyliedig ar draws y pynciau craidd) | Dangosydd Pwnc Craidd yn CA3 (canran yn cyflawni o leiaf y lefel ddisgwyliedig ar draws y pynciau craidd) |
|---|---|---|---|
| *Holl Ddisgyblion* | 87.2% | 88.8% | 86.0% |
| *Gwyn-Prydeinig* | 87.7% | 89.1% | 86.0% |
| *Teithwyr* | 59.5% | 53.6% | 39.2% |
| *Sipsi / Sipsi Roma* | 54.2% | 65.7% | 34.9% |
| *Cymysg* | 88.8% | 90.6% | 86.0% |
| *Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig* | 89.6% | 90.8% | 89.7% |
| *Du neu Ddu Prydeinig* | 83.1% | 84.9% | 82.8% |
| *Tsieineaidd neu Tsieineaidd* | 89.4% | 92.9% | 94.9% |

[3] https://gov.wales/statistics-and-research/

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Prydeinig* | | | |
| *Unrhyw grŵp ethnig arall* | 78.3% | 82.9% | 82.3% |

Ffynhonnell: https://gov.wales/statistics-and-research/

Yn 2017/18, roedd 27,836 o ddysgwyr 5 oed a throsodd gydag iaith gyntaf heblaw Cymraeg neu Saesneg.[4] Mae tystiolaeth a gafwyd o'r system gyfredol yn dangos bod cyrhaeddiad dysgwyr a oedd yn newydd i'r Saesneg (lle'r oedd yn iaith ychwanegol) yn is na'r rhai a oedd yn rhugl[5].

Yn sail i'r gwaith datblygu y mae'r gred na ddylai gallu rhywun i elwa ar addysg gael ei benderfynu gan ei gefndir neu ym mhle y mae'n byw. Mae Fframwaith y Cwricwlwm yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddatblygu eu cwricwlwm ar gyfer pob dysgwr gyda ffocws ar ddull mwy personol o ddysgu a dilyniant i gefnogi'r amcan o gau'r bwlch cyrhaeddiad. O ganlyniad, cynigir y bydd effeithiau cadarnhaol ar ddysgwyr o wahanol hiliau.

Nod y cwricwlwm newydd yw rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o wahanol hanesion, diwylliannau, gwerthoedd a threftadaeth y Gymru fodern a'r cyfraniad y gallant ei wneud i'w cymunedau. Bydd y cwricwlwm newydd hefyd yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr fyfyrio ar eu rolau a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion y byd sy'n byw mewn cymdeithas sy'n ddiwylliannol ac yn ieithyddol amrywiol. Yn ogystal, mae'r MDaPh Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn cynnwys ieithoedd rhyngwladol fel elfen allweddol.

Bydd ymgysylltu'n feirniadol â'r cwricwlwm yn helpu dysgwyr i archwilio perthnasoedd cadarnhaol yn seiliedig ar barch, goddefgarwch ac urddas mewn cymdeithas amrywiol. Caiff hyn ei gryfhau wrth i ysgolion ddatblygu cwricwlwm, o fewn y Fframwaith Cenedlaethol, sy'n berthnasol i'w dysgwyr a'u cymunedau, gan ganiatáu gwell dealltwriaeth o brofiadau gwahanol grwpiau. Fodd bynnag, mewn rhai ysgolion sydd heb lawer o bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, gallai'r ymagwedd arwain gwricwlwm

[4] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Ethnicity-National-Identity-and-Language/pupilsaged5andoverfirstlanguageotherthanenglishwelsh-by-localauthorityregion-year

[5] https://gov.wales/statistics-and-research/

sydd â diffyg amrywiaeth. Rydym wedi ceisio lliniaru hyn gan gynnwys canllawiau ychwanegol ar ymgorffori amrywiaeth fel thema ar draws dysgu. Yn ogystal, mae'r canllawiau'n rhoi pwys ar ddeall natur amrywiol Cymru a chyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol a dylent gefnogi dealltwriaeth dysgwyr o ystod o hunaniaethau a safbwyntiau.

Rhesymau dros y penderfyniad a chamau lliniaru

Mae *Dyfodol Llwyddiannus* wedi ein herio i ailystyried ein hymagwedd tuag at y cwricwlwm, mae'n ei gwneud yn glir bod lefel uchel o ragnodi a manylder ar raddfa genedlaethol yn “cyfyngu ar y llif a’r dilyniant yn y dysgu gan blant a phobl ifanc". Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ddatblygu eu cwricwlwm yn unol â'r pedwar diben, a'r gofynion gorfodol a fydd yn cael eu pennu mewn deddfwriaeth. Mae Canllawiau’r Cwricwlwm yn darparu cymorth wrth ddatblygu'r cwricwlwm hwn. Mae'r cysyniad o sybsidiaredd yn rhoi hyblygrwydd i ymarferwyr sicrhau bod y cwricwlwm a gyflwynir yn yr ystafell ddosbarth yn ystyrlon i bob un o'u dysgwyr ac yn adlewyrchu eu cymuned leol.

Y pedwar diben yw'r man cychwyn ar gyfer holl benderfyniadau cynllunio'r cwricwlwm yn ogystal â dysgu ac addysgu. Mae hyn yn cynnwys datblygu dysgwyr yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelodau o gymdeithas amrywiol.

Er mwyn cefnogi dysgwyr sydd ag iaith gyntaf heblaw Cymraeg neu Saesneg, bydd yr MDaPh Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn cynnwys ieithoedd rhyngwladol. Mae hyn yn caniatáu i ysgolion gydnabod iaith y cartref wrth ystyried taith dysgwr ar hyd y continwwm ac wrth fesur cyrhaeddiad.

**Crefydd, cred a diffyg cred**

Rydym wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr o'r Eglwys yng Nghymru a'r Gwasanaeth Addysg Gatholig i sicrhau y gwneir cysylltiadau rhwng eu maes llafur enwadol a'r MDaPh y Dyniaethau yn ehangach, yn ogystal â'r cwricwlwm newydd yn ei gyfanrwydd.

Mae gan bob awdurdod lleol faes llafur cytûn ar gyfer Addysg GAfyddol y mae'n rhaid i ysgolion ei gyflawni (ac eithrio ysgolion o natur grefyddol sy'n dilyn maes llafur enwadol). Mae'r disgrifiad o faes llafur cytûn a amlinellir yn Neddf Addysg 1996 ar hyn o bryd fel a ganlyn:

*Every agreed syllabus shall reflect the fact that the religious traditions in Great Britain are in the main Christian whilst taking account of the teaching and practices of the other principal religions represented in Great Britain.*

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar 'sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn' a oedd yn cynnwys cynnig i newid enw Addysg Grefyddol yn Hydref 2019. Roedd y cynnig hwn yn destun asesiad effaith ar wahân.

Yn y cwricwlwm newydd, mae crefydd, gwerthoedd a moeseg yn rhan o MDaPh y Dyniaethau. Bwriedir i'r ddarpariaeth adlewyrchu'r berthynas hanesyddol a chyfoes ag athroniaeth a safbwyntiau crefyddol yng Nghymru, gan gynnwys credoau nad ydynt yn rhai crefyddol. Y nod yw helpu dysgwyr i ddatblygu parch a dealltwriaeth o wahanol ffurfiau ar grefydd a bydolygon dros amser ac mewn gwahanol gymdeithasau. Wrth ddatblygu eu darpariaeth crefydd, gwerthoedd a moeseg, cynigiwn y dylai ysgolion heb gymeriad crefyddol ac ysgolion sefydledig a gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol ystyried y maes llafur cytûn wrth ddarparu crefydd, gwerthoedd a moeseg.

Yn y cwricwlwm newydd, bydd dyletswydd i fynnu bod awdurdod lleol a chynhadleddau meysydd llafur cytûn yn rhoi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r cwricwlwm wrth ddatblygu a mabwysiadu maes llafur cytûn. Bydd darpariaeth ychwanegol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ystyried y maes llafur cytûn wrth lunio a gweithredu eu cwricwlwm ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg.

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn darparu y gall rhiant dynnu ei blentyn allan o Addysg Grefyddol ac Addysg Rhyw. Cynhaliwyd ymgynghoriad 'Sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn' yn Hydref 2019 ac roedd yn cynnwys cynnig i beidio â chynnwys yr hawl i dynnu allan o addysg grefyddol ac addysg cydberthynas a rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd. Roedd y cynigion hyn yn destun asesiad effaith ar wahân.

**Rhyw / Rhywedd**

Mae tystiolaeth o wahaniaethau yng nghyrhaeddiad dysgwyr yn seiliedig ar ryw. Er enghraifft, ym Mhrofion Darllen Cenedlaethol 2018, perfformiodd merched yn well na bechgyn ym mhob grŵp blwyddyn. Ym Mrofion Rhifedd Cenedlaethol 2018, perfformiodd bechgyn yn well na merched yn y rhan fwyaf o grwpiau blwyddyn y Cwricwlwm

Cenedlaethol (yr eithriadau oedd Profion Rhifedd Gweithdrefnol Blwyddyn 8, a Phrofion Rhesymu Rhifiadol Blynyddoedd 3 a 7)[6].

Bydd cael Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fel rhan orfodol o'r cwricwlwm yn cael effeithiau cadarnhaol ar rywedd drwy godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith dysgwyr o berthnasoedd parchus, ymddygiad cadarnhaol ac amrywiaeth.

Rhesymau dros y penderfyniad a chamau lliniaru

Fel yr amlygwyd uchod, mae tystiolaeth o'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol yn amlygu canlyniadau gwahanol ar sail rhyw. Yn ogystal, mae ystadegau swyddogol yn dangos gwahaniaeth yng nghanlyniadau arholiadau Cyfnod Allweddol 4 yn seiliedig ar ryw. Bydd y dull newydd o ymdrin â phrofion cenedlaethol sy'n cefnogi dull mwy personol o asesu dysgwyr a'u dilyniant yn helpu dysgwyr i ddatblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol a galluog.

**Cyfeiriadedd Rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol)**

Disgwylir y bydd effeithiau cadarnhaol o'r cynigion ar gyfeiriadedd rhywiol. Yn benodol, gall Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'r MDaPh Iechyd a Lles leihau bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig a gwella lles dysgwyr LGBTQI+ yn sgil hynny. Bydd hefyd yn helpu i herio stereoteipiau rhyw a rhywiol ac yn cynyddu dealltwriaeth dysgwyr o berthnasoedd diogel, iach a chadarnhaol.

Rhesymau dros y penderfyniad a chamau lliniaru

Argymhellodd y Panel Arbenigol ar Ryw a Pherthnasoedd gwmpas ehangach ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb er mwyn cael yr effaith gadarnhaol a amlygwyd uchod. Ategir hyn gan y statws statudol arfaethedig ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm ar gyfer pob dysgwr hyd at 16 oed. Yn ogystal, darparwyd cyllid i gonsortia rhanbarthol yn 2018/19 i gefnogi ysgolion i gyflwyno profiadau dysgu o safon mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i gefnogi'r effeithiau a nodwyd uchod. Mae’r cynigion Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi codi cwestiynau am gynnwys penodol addysgu a dysgu yn y maes hwn, yn arbennig gan unigolion o grwpiau ffydd.

---

[6] https://gov.wales/docs/statistics/2018/180822-national-reading-numeracy-test-results-2018-en.pdf

Bydd sgyrsiau gyda chynrychiolwyr o amrywiaeth o grwpiau ffydd a chymunedau yn hanfodol i sicrhau dealltwriaeth o'r newidiadau i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Heb eu trafod yn ofalus, mae perygl y gallai pryder ynghylch y materion hyn effeithio ar ddysgwyr unigol neu ysgolion penodol. Bydd angen i ymarferwyr gael eu cefnogi gan ddysgu proffesiynol a chymorth.

**Priodas a phartneriaeth sifil**

Bydd y cynigion yn ceisio cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth dysgwyr o briodas a phartneriaethau sifil. Yn benodol, bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a MDaPh Iechyd a Lles yn helpu i herio stereoteipiau rhyw a rhywedd ac yn cynyddu dealltwriaeth plant a phobl ifanc o berthnasoedd diogel, iach a chadarnhaol.

Rhesymau dros y penderfyniad a chamau lliniaru

Mae'r pedwar diben, fel y man cychwyn ar gyfer yr holl addysgu a dysgu, yn adlewyrchu'r angen i ddysgwyr barchu cymdeithas amrywiol: *dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol.*

Bydd statws statudol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm a'r cydraddoldeb ar draws y chwe MDaPh (gan gynnwys Iechyd a Lles) yn helpu i gefnogi ansawdd y profiad dysgu yn y maes hwn ac yn codi proffil themâu fel priodas, partneriaeth sifil a pherthnasoedd iach.

Ar hyn o bryd mae cydnabyddiaeth statudol o hawl ysgolion o natur grefyddol i ddarparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n briodol i ethos yr ysgol. Nid oes unrhyw gynlluniau i newid gallu ysgolion sydd â chymeriad crefyddol ddarparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n gyson â'u hethos.

**Aelwydydd incwm isel**

Mae'r cynigion yn ceisio cefnogi pob dysgwr ym mhob ystafell ddosbarth ac maent wedi'u cynllunio i fod yn berthnasol i bob dysgwr hyd at 16 oed. Mae galluogi amcan tri yn Cenhadaeth ein Cenedl yn amlygu'r ymrwymiad i sicrhau bod dysgwyr o gartrefi incwm isel yn cael cymorth i gyflawni eu potensial. Ategir y cwricwlwm gan weithgarwch polisi arall a nodir yn Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl, sy'n edrych ar leihau'r bwlch cyrhaeddiad a lleihau'r rhwystrau i ddysgwyr. Felly, awgrymir y bydd y cwricwlwm a'r trefniadau asesu arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar y dysgwyr hyn.

Rhesymau dros y penderfyniad a chamau lliniaru

Mae *Cenhadaeth ein Cenedl* yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i weithgarwch er mwyn gallu darparu cwricwlwm gweddnewidiol gan gynnwys ar gyfer dysgwyr o wahanol gefndiroedd.

Nododd y dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a Threfniadau Asesu yng Nghymru* yr ymrwymiad i degwch a chynhwysiant fel cryfderau allweddol yn system addysg Cymru.

Y pedwar diben yw'r man cychwyn ar gyfer yr holl addysgu a dysgu, ac maent yn berthnasol i bob dysgwr ym mhob ystafell ddosbarth waeth beth fo'u cefndir. Yn ogystal, caiff camau a chyfnodau allweddol eu dileu er mwyn gwella dilyniant a chynyddu'r potensial ar gyfer cyrhaeddiad uwch drwy leihau cyfnodau a lleihau'r newidiadau o ran dibenion a dulliau gweithredu rhwng gwahanol gyfnodau mewn gyrfa ysgol, yn unol â Dyfodol Llwyddiannus. Hefyd, ceisir sicrhau nad yw'r dysgwyr yn cael eu cyfyngu o ran eu dyheadau. Ategir hyn gan y cynnig am ddyletswydd ar ysgolion i ddarparu cwricwlwm (gan gynnwys asesu) sy'n canolbwyntio ar sut y gall dysgwyr symud ymlaen ar hyd y continwwm a galluogi'r rhan fwyaf o ddysgwyr i gyrraedd eu potensial llawn.

Mae'r canllawiau wedi'u mireinio yn rhoi mwy o bwys ar gael ysgolion i ddatblygu cwricwlwm sy'n hygyrch i bawb. Mae'n darparu bod sicrhau bod pob dysgwr yn cael cymorth i wireddu'r pedwar diben drwy gwricwlwm eang a chytbwys yn rhan hanfodol o godi dyheadau pob dysgwr a mynd i'r afael â gwahanol fylchau mewn cyrhaeddiad. Mae hyn yn cynnwys bylchau sydd wedi'u dylanwadu gan wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol, ond hefyd materion ehangach. Dylid cefnogi hyn drwy ddarpariaeth sy'n ymateb i anghenion ac amgylchiadau penodol y dysgwyr. Yn benodol, dylai hyn ystyried pa brofiadau, gwybodaeth a sgiliau penodol y gallai fod ar ddysgwyr eu hangen na fyddent wedi cael cyfle i gael budd ohonynt fel arall.

**Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**

| Hawliau Dynol | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru effeithiau negyddol? |
|---|---|---|---|
| Protocol 1, Erthygl 2 – yr hawl i gael addysg. | Mae'r cynigion yn cefnogi'n weithredol hawl plentyn neu berson ifanc i gael addysg. | Mae'r amcanion galluogi a nodir yn *Cenhadaeth ein Cenedl* yn cefnogi trefniadau'r cwricwlwm drwy sicrhau bod fframwaith y gweithlu, | Ddim yn berthnasol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | arweinyddiaeth a gwerthuso yn helpu pob dysgwr i gyflawni safonau uchel. | |

## C. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

1. **Rhif cyfeirnod Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg: 05/01/2020**

2. **A yw'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – Cymraeg 2050 - Miliwn o Siaradwyr Cymraeg a'r rhaglen waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021?**

Mae'r cynnig hwn yn cefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg yn llawn. Rydyn ni eisiau gweld pob dysgwr yng Nghymru yn gallu defnyddio'r Gymraeg pan fyddan nhw'n gadael yr ysgol. Y nod yw trawsnewid y modd yr ydym yn dysgu Cymraeg fel bod, erbyn 2050, o leiaf 70% o ddisgyblion yn gallu siarad Cymraeg pan fyddant yn gadael yr ysgol.

I hyn ddigwydd, mae angen i addysgu a dysgu Cymraeg gael ei gydnabod a'i werthfawrogi fel rhan annatod o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae *Dyfodol Llwyddiannus* yn cydnabod bod dysgu ac addysgu Cymraeg yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ac mae'n argymell bod dysgu Cymraeg yn parhau'n orfodol hyd at 16 oed. Bydd ffocws o'r newydd ar ddysgu Cymraeg, gyda phwyslais ar wrando a siarad.

Fel gyda chanllawiau ym mhob maes dysgu a phrofiad, mae dilyniant yn y MDaPh Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn seiliedig ar gontinwwm dysgu. Mae hyn yn dechrau gydag ychydig neu ddim iaith ac yn datblygu tuag at hyfedredd/rhuglder. Bydd ysgolion ac ymarferwyr yn defnyddio hyn i ddatblygu eu cwricwlwm lleol a bydd disgwyl i ddysgwyr rhwng 3 a 16 oed wneud cynnydd yn y Gymraeg ar hyd y continwwm hwn.

Argymhellodd *Un iaith i bawb: adolygiad o Gymraeg ail iaith yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 (2013)* y dylid datblygu un continwwm dysgu ar gyfer y Gymraeg, gyda disgwyliadau clir ar gyfer dysgwyr y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, dwyieithog a chyfrwng Cymraeg. Byddai datblygu continwwm o'r fath yn golygu y byddai pob dysgwr yng Nghymru yn dilyn yr un cwricwlwm ac yn cael ei asesu yn erbyn un fframwaith, gan ddileu'r term 'Cymraeg ail iaith' a'r rhaglen astudio gysylltiedig. Ystyriwyd yr adolygiad hwn gan yr Athro Donaldson fel rhan o'r dystiolaeth ar gyfer *Dyfodol Llwyddiannus* ac adlewyrchir yr argymhelliad o un continwwm Cymraeg yn y MDaPh Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.

Caiff dilyniant ei fynegi drwy ddisgrifiadau dysgu. Er mwyn adlewyrchu gwahanol gyflymder a dyfnder dysgu mewn gwahanol gyd-destunau dysgu iaith, mae'r cwricwlwm yn cynnwys rhai disgrifiadau gwahanol ar gyfer dysgu Cymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg ac

ar gyfer dysgu Cymraeg mewn lleoliadau, ysgolion a ffrydiau cyfrwng Saesneg. Drwy gyfrwng y Saesneg, canolbwyntir ar sgiliau cyfathrebu rhyngbersonol. Bydd dysgwyr cyfrwng Cymraeg hefyd yn datblygu eu hyfedredd o ran iaith academaidd.

Mae *Cymraeg 2050* yn datgan mai addysg drochi yw ein prif ddull o sicrhau bod ein system addysg yn cyfrannu at gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Bwriad y cynigion yw cefnogi trochi.

Y tu hwnt i'r cwricwlwm newydd, mae gwaith yn cael ei wneud i ystyried a diwygio categorïau ieithyddol ysgolion. Drwy Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdodau lleol, mae'n parhau'n flaenoriaeth i ni sicrhau bod ysgolion yn cael eu hannog ar hyd y continwwm (yng nghyd-destun yr ysgol, yn hytrach nag unigolion ar gontinwwm iaith fel rhan o'r cwricwlwm). Bydd angen monitro er mwyn sicrhau cysondeb rhwng y cwricwlwm newydd a'r meysydd polisi hyn.

3. **Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg, ac esboniwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau ar gyfer y Gymraeg:**

Mae'r cynigion canlynol yn cefnogi hyrwyddo'r Gymraeg:

- Un o brif nodweddion pedwar diben y cwricwlwm newydd yw cefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r pedwar diben yn rhan annatod o'r cwricwlwm a bydd angen i gwricwla ysgolion alluogi dysgwyr i wneud cynnydd tuag at y rhain.

- Bydd y Gymraeg yn statudol ar gyfer pob dysgwr hyd at 16 oed a bydd yn rhan o'r MDaPh Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.

- Er mwyn i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus, mae angen cyfleoedd dilys arnynt i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn a thu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Felly, caiff ysgolion a lleoliadau eu hannog i gefnogi datblygiad sgiliau Cymraeg dysgwyr ar draws y cwricwlwm a thrwy brofiadau a gweithgareddau allgyrsiol fel rhan o ddull ysgol gyfan.

- Y fframwaith cenedlaethol ar gyfer pob lleoliad ac ysgol yw'r *Siarter Iaith*. Bydd ar gael ar y cyd â'r cwricwlwm newydd. Bwriad hyn yw darparu sylfaen gyfannol ar gyfer profiadau cynllunio ar draws y cwricwlwm er mwyn cynyddu defnydd dysgwyr

o'r Gymraeg a meithrin eu hyder yn yr iaith. Mae'n cefnogi mwy o gyfleoedd i ddysgwyr siarad Cymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan sefydlu defnydd o batrymau iaith Gymraeg, a hynny o oedran cynnar. Mae'r egwyddorion a nodir yn y *Siarter Iaith* yn cyd-fynd â *Chanllawiau Cwricwlwm i Gymru 2022*.

- Mae’r disgrifiadau dysgu ym mhob cam cynnydd yn y MDaPh Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn mynegi dilyniant mewn agweddau pwysig ar ddysgu. Maent yn ystyried y ffyrdd y mae dysgwyr yn gwneud cynnydd ar sail ymchwil, gan gynnwys y ddealltwriaeth a gaiff ymarferwyr o'u profiad yn yr ystafell ddosbarth. Maent hefyd yn cydnabod yr hyn y mae angen i ddysgwyr ei wybod a gallu ei wneud er mwyn symud ymlaen i'r cam nesaf.
- Mae angen deddfwriaeth i ddileu'r gwahaniaeth rhwng Cymraeg a Chymraeg ail iaith. Bydd hyn yn caniatáu un continwwm o ddysgu Cymraeg ym mhob ysgol a lleoliad. Mae'r newidiadau i asesu yn cyd-fynd â’r nod o ganiatáu i ddysgwyr ddysgu mewn amgylchedd cefnogol.
- Er y cynigir y bydd Saesneg yn statudol ar gyfer dysgwyr hyd at 16 oed, bydd y cwricwlwm newydd a'r seiliau deddfwriaethol yn parhau i ganiatáu i leoliadau, fel cylchoedd meithrin, ac ysgolion i drochi dysgwyr yn llawn yn yr iaith Gymraeg.

<u>Camau Lliniaru</u>

Nodir isod y camau a gyflawnwyd i sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei gynllunio a'i ddatblygu i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo.

Datblygwyd y cwricwlwm drwy fodel o gyd-adeiladu gyda rhwydwaith o ysgolion arloesi ledled Cymru. Drwy'r rhwydwaith hwn ceir cynrychiolaeth o ysgolion cyfrwng Saesneg, dwyieithog a chyfrwng Cymraeg.

Mae'r canllawiau wedi'u datblygu i adlewyrchu'r cyd-destun dwyieithog - gydag ymarferwyr sy'n dysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg yn gweithio ochr yn ochr â'r rheini sy'n dysgu Saesneg a thrwy gyfrwng y Saesneg. Defnyddiwyd arbenigedd golygyddion dwyieithog hefyd i sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn ystyrlon yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae disgrifiadau dysgu ar gyfer y Gymraeg mewn lleoliadau, ysgolion a ffrydiau cyfrwng Saesneg wedi'u datblygu yn seiliedig ar fframwaith dilyniant cyffredin, gan ddechrau gyda dysgwyr sy'n ddechreuwyr a symud yn raddol tuag at rugldeb. Bydd disgrifiadau dysgu ar

gyfer y Gymraeg mewn lleoliadau, ysgolion a ffrydiau cyfrwng Saesneg yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd gyda'r bwriad yn y tymor hir o gael gwared ar y 'sgaffaldio' hwn a chael pob ysgol yn defnyddio'r un disgrifiadau dysgu ar gyfer y Gymraeg er mwyn gwireddu uchelgais 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## D. ASESIAD O'R EFFAITH AR FIOAMRYWIAETH

**YmgorfforRi bioamrywiaeth**

1. **Sut bydd eich cynnig yn integreiddio bioamrywiaeth yn y broses o wneud penderfyniadau?**

Mae bioamrywiaeth wedi'i chynnwys wrth ddatblygu'r cwricwlwm ac mae wedi'i chynnwys yn natganiadau o'r hyn sy'n bwysig MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg, a gaiff ei gynnwys mewn canllawiau statudol.

2. **A yw eich cynnig yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei gyfrif mewn penderfyniadau busnes?**

Ddim yn berthnasol

3. **Sut mae eich cynnig yn gwella dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth, gan annog eraill i weithredu?**

Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ac ymarferwyr fod yn ddylunwyr cwricwlwm gan addasu'r gofynion statudol i ystyried eu dysgwyr a chyd-destunau lleol.

Mae'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig 'pethau byw' yn yr MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn ystyried sut y mae angen amodau ac adnoddau penodol ar bopeth byw i oroesi. Mae bodau dynol yn rhan o'r byd byw a gall ein penderfyniadau a'n gweithredoedd, ynghyd â dethol naturiol, gael effaith sylweddol ar amrywiaeth bywyd. O fewn y MDaPh hwn, felly, mae disgwyl y bydd dysgwyr yn datblygu i allu egluro pwysigrwydd cylchredau maetholion, gwerthuso materion cyfoes sy'n effeithio ar fioamrywiaeth (gan gynnwys ffactorau amgylcheddol a gweithgarwch dynol), ochr yn ochr â chael profiad o gasglu data o gynefinoedd naturiol i fesur bioamrywiaeth.

Bydd hyblygrwydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn caniatáu i'r addysgu bwysleisio bioamrywiaeth ac ecoleg yn amgylcheddau lleol y dysgwyr, y tu mewn ac yn yr awyr agored (MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg), a bydd hefyd yn hwyluso golwg ehangach ar y byd (MDaPh y Dyniaethau).

Mae cyfleoedd i godi/cynnwys materion bioamrywiaeth yn elfennau profiad y cwricwlwm newydd, yn enwedig os ydynt yn berthnasol i'r gymdogaeth.

Y pedwar diben yw sail y cwricwlwm – y sylfeini ar gyfer addysgu a dysgu. Gall y nodweddion sy'n sail i'r pedwar diben gyfrannu at godi ymwybyddiaeth o

fioamrywiaeth ac ecoleg: o dan ‘dinasyddion egwyddorol, gwybodus’ - Mae pob plentyn a pherson ifanc yn dangos ei ymrwymiad i gynaliadwyedd y blaned ac yn cydnabod ei fod yn dibynnu arno; ac mae’n deall ac yn ystyried effaith ei weithredoedd wrth wneud dewisiadau a chymryd camau.

## Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n monitro

**4. A ydych wedi defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael o fioamrywiaeth i lywio'ch cynnig a'r asesiad hwn?**

Ni fydd y cynigion yn effeithio'n andwyol ar unrhyw un o'r rhywogaethau na'r cynefinoedd o bwys a gyhoeddir o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod y MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn cynnig profiad o gynefinoedd naturiol drwy gydol y continwwm dysgu 3 i 16 oed, gyda'r nod o ddatblygu, ymhlith dysgwyr, fwy o gyfrifoldeb, pryder a pharch at bopeth byw a'r amgylchedd y maent yn byw ynddo.

**5. A ydych wedi defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effeithiau allweddol ar fioamrywiaeth er mwyn gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth?**

Mae'r broses o ddatblygu canllawiau'r cwricwlwm wedi defnyddio model o gyd-adeiladu gydag arbenigwyr, ymarferwyr, Estyn, Cymwysterau Cymru a'r consortia rhanbarthol yng Nghymru. Mae ystod eang o arbenigwyr wedi bod yn rhan o ddatblygu’r MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg, gan gynnwys mewnbwn uniongyrchol gan y Gymdeithas Fioleg Frenhinol. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau bod y MDaPh yn adlewyrchu'r wybodaeth a'r syniadau diweddaraf.

**6. A all eich cynnig gyfrannu at ein corff o wybodaeth ar gyfer bioamrywiaeth?**

Mae'r cynigion yn cefnogi'r broses o rannu gwybodaeth a datblygu dealltwriaeth ymysg dysgwyr drwy'r MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg a'r pedwar diben - a chaiff hyn ei gefnogi gan ddeddfwriaeth.

## Llywodraethu a chefnogaeth ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth

**7. A all eich cynnig gefnogi camau bioamrywiaeth mewn unrhyw ffordd?**

Mae'r fframwaith yn rhoi cyfle i ysgolion ddatblygu cwricwlwm sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr yn eu cyd-destun penodol. Yn yr un modd, dylai'r hyblygrwydd hwn roi'r rhyddid i ymarferwyr ystyried materion a fydd yn diwallu

anghenion eu dysgwyr, a dylai hyn gynnwys bioamrywiaeth fel y nodir yn y MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

### 8. A all eich cynnig helpu i feithrin gallu er mwyn gweithredu ar fioamrywiaeth?

Mae'r cynigion a amlinellwyd yn cefnogi'r broses o ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion bioamrywiaeth fel rhan o bedwar diben y cwricwlwm ac yn fwy penodol fel rhan o'r MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Mae'r trefniadau newydd yn rhoi hyblygrwydd i ymarferwyr ac ysgolion gynnwys profiadau dysgu o ansawdd uchel sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth os dymunant wneud hynny. Yn allweddol i hyn fydd cymorth gan gyrff proffesiynol perthnasol a sefydliadau i ddatblygu deunyddiau ac adnoddau priodol.

### 9. A ydych wedi cofnodi penderfyniadau a chamau gweithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth?

Cofnodir y camau gweithredu a nodwyd uchod fel rhan o ddogfennaeth y cwricwlwm. Caiff hyn ei gyhoeddi a'i ddefnyddio gan ymarferwyr i gefnogi datblygiad y cwricwlwm yn eu hysgolion.

## E. ASESIAD O'R EFFAITH AR BRAWFESUR POLISÏAU GWLEDIG

**1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar bobl, busnesau a chymunedau gwledig.**

Mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio i fod yn berthnasol i bob dysgwr ym mhob ystafell ddosbarth yng Nghymru. Roedd yr ymarferwyr a oedd yn gysylltiedig â datblygu'r trefniadau newydd yn cynnwys ysgolion o faint gwahanol mewn lleoliadau ledled Cymru, gan gynnwys ardaloedd gwledig, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, rhanddeiliaid ac arbenigwyr.

Ar hyn o bryd, nid ydym yn rhagweld y bydd angen cynnal Asesiad Llawn o'r Effaith ar Brawfesur Gwledig ar y sail y bydd yr hyblygrwydd yn y trefniadau newydd yn gweddu i wahanol ysgolion a lleoliadau. Caiff hyn ei adolygu'n rheolaidd.

Datblygwyd fframwaith y cwricwlwm newydd i roi'r hyblygrwydd i ysgolion ac ymarferwyr i ddatblygu cwricwlwm sy'n bodloni anghenion dysgwyr yn eu cyd-destunau. Bwriedir i ysgolion gael hyblygrwydd wrth benderfynu sut i ddatblygu cwricwlwm sy'n cyfrannu at y pedwar diben, gan ystyried y canllawiau. Mae'r canllawiau wedi'u cynllunio'n benodol i fod yn hygyrch i ystod eang o ysgolion a dysgwyr o wahanol gefndiroedd. Bydd hyn yn sicrhau bod ysgolion mewn ardaloedd gwledig yn gallu datblygu cwricwla sy'n adlewyrchu:

- y gwasanaethau, y profiadau a'r cyfleoedd sydd ar gael yn rhwydd mewn ardaloedd gwledig ac yn unigryw iddynt
- yr anghenion a'r materion lleol a allai effeithio ar ddysgwyr mewn cymunedau gwledig.

Er enghraifft, mae'r canllawiau drafft mewn perthynas ag Iechyd a Lles yn cynnwys cefnogi dysgwyr i gael dealltwriaeth o sefyllfaoedd niweidiol a sut i ymateb yn briodol. Mewn lleoliad gwledig, gallai hyn edrych ar ddiogelwch dŵr yng nghyd-destun cronfeydd dŵr neu raeadrau.

Ni ragwelir y byddai'r cwricwlwm newydd yn cael effaith ar y galw am wasanaethau addysg gwledig (hy. ysgolion pentref).

Bwriedir i fframwaith y cwricwlwm newydd fod yn gwbl gefnogol i'r Gymraeg, gan gynnwys mewn cymunedau gwledig lle mae'n rhan hanfodol o fywyd bob dydd.

Yn sail i'r gwaith hwn mae cred na ddylai gallu rhywun i elwa ar addysg gael ei benderfynu gan lle maen nhw'n byw na beth yw eu hincwm. Mae’r cwricwlwm hwn yn gwricwlwm i bob dysgwr gyda ffocws ar ddull mwy personol o ddilyniant mewn dysgu.

## F: SGRINIO'R EFFAITH AR IECHYD

Fel yr amlinellir yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl*, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i ddatblygu trefniadau cwricwlwm ac asesu gweddnewidiol yng Nghymru er mwyn galluogi pobl ifanc i gael safonau llythrennedd a rhifedd uwch, dod yn fwy cymwys yn ddigidol ac yn ddwyieithog, a datblygu i fod feddylwyr mentrus, creadigol a beirniadol. Mae tegwch a rhagoriaeth wrth graidd y trefniadau newydd ac maent yn helpu i ddatblygu dinasyddion hyderus, galluog a gofalgar.

Mae *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o’r Cwricwlwm a’r Trefniadau Asesu yng Nghymru* (2015) yn nodi materion ymarferol a sylfaenol gyda'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu presennol yng Nghymru, gan gynnwys:

- Lefelau cyflawniad nad ydynt mor uchel ag y dylent fod (yn ôl tystiolaeth PISA ac Estyn)
- Daeth adolygiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (yr OECD) yn 2014 i'r casgliad bod y trefniadau asesu a gwerthuso presennol yn anfoddhaol o ran gwella perfformiad cyfran uchel o bobl ifanc Cymru
- Diffyg parhad o fewn addysg ac wrth bontio rhwng cyfnodau
- Profiad addysgol gwael i bobl ifanc yng nghyfnod allweddol 3
- Nid yw cwricwlwm a ddyfeisiwyd yn 1988 yn adlewyrchu'r byd y mae pobl ifanc yn byw ynddo nawr a goblygiadau byd sy’n newid ar beth a sut y mae angen i bobl ifanc ddysgu.

O ganlyniad, mae angen sicrhau bod gan Gymru gwricwlwm eang a chytbwys sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif, gan amlinellu pa wybodaeth y dylai dysgwyr ei chael a pha sgiliau y dylent eu meithrin.

**Natur y dystiolaeth a ystyriwyd/i'w defnyddio (gan gynnwys data llinell sylfaen, ymchwil dechnegol ac ansoddol, a gwybodaeth arbenigol a chymunedol):**

Datblygwyd y fframwaith cwricwlwm newydd gan ymarferwyr o bob rhan o Gymru gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth arbenigol gan arbenigwyr ar ddylunio cwricwlwm yn ogystal

ag arbenigwyr o ddisgyblaethau penodol a rhanddeiliaid yn y gwahanol bynciau sy'n rhan o'r chwe MDaPh yn y cwricwlwm newydd. O ran iechyd, mae'r datblygiad wedi tynnu ar dystiolaeth o:

- Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion
- DECIPHer – y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Swyddogion polisi iechyd o fewn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Prif Swyddog Meddygol a'r Prif Swyddog Nyrsio
- Dr Dusana Dorjee, Prifysgol Caerefrog – Seicoleg mewn Addysg
- Yr Athro Robin Banerjee, Prifysgol Sussex – Seicoleg Ddatblygiadol
- Dr Dan Siegel - Ysgol Feddygaeth UCLA
- Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol
- Chwaraeon Cymru

**Grwpiau poblogaeth allweddol yr effeithir arnynt gan y rhaglen, polisi neu brosiect.**

*Grwpiau agored i niwed:* Effeithir yn uniongyrchol ar blant a phobl ifanc, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol a chyflyrau iechyd penodol.

*Grwpiau eraill;* Athrawon a gweithwyr addysgol proffesiynol eraill, a rhieni.

## Sgrinio

| **Ffyrdd o fyw** | | **Grwpiau agored i niwed yr effeithir arnynt** |
|---|---|---|
| **Effeithiau Cadarnhaol** | **Effeithiau Negyddol** | |
| Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd yw cefnogi dysgwyr i ddatblygu'n unigolion iach a hyderus sy'n:<br><br>• defnyddio gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywydau beunyddiol<br>• gwybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cymorth i gadw'n ddiogel ac yn iach<br>• cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol<br>• gwneud penderfyniadau pwyllog am eu ffordd | | Plant a Phobl Ifanc |

| | | |
|---|---|---|
| o fyw ac yn rheoli risg<br><br>Mae'r MDaPh Iechyd a Lles yn darparu ar gyfer dysgu o gwmpas: gweithgarwch corfforol; maeth; cysgu; gofalu am y corff a hylendid; gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar iechyd; dylanwadau cymdeithasol sy'n llywio ymddygiad sy'n effeithio ar iechyd.<br><br>Mae'r MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn darparu ar gyfer dysgu am ymchwilio gwyddonol, gwerthuso tystiolaeth ac effaith gwyddoniaeth a thechnoleg ar lefel bersonol, gymdeithasol ac amgylcheddol. Mae hefyd yn cwmpasu dilyniant o ran dysgu am sut rydym yn datblygu, yn cynnal bywyd ac yn atgenhedlu; yn ogystal ag iechyd ac afiechyd - gallu esbonio effaith dewisiadau am ffordd o fyw ar systemau organau a'u heffaith ar iechyd.<br><br>O ganlyniad, rhagwelir y bydd dysgwyr mewn gwell sefyllfa i gymryd rheolaeth dros eu hiechyd a'u lles eu hunain a phobl eraill. | | |

| **Effeithiau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd** | | **Grwpiau agored i niwed yr effeithir arnynt** |
|---|---|---|
| **Effeithiau Cadarnhaol** | **Effeithiau Negyddol** | |
| Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd yw cefnogi dysgwyr i ddatblygu'n ddinasyddion gwybodus moesegol sy'n:<br><br>• deall ac ystyried effaith eu gweithredoedd wrth wneud dewisiadau a gweithredu<br>• yn wybodus am eu diwylliant, cymuned, cymdeithas a'r byd, nawr ac yn y gorffennol<br><br>Yn y Dyniaethau, bydd dysgwyr yn datblygu'n ddinasyddion gwybodus, hunanymwybodol sy'n ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, byddant yn gallu cymryd camau ystyriol, moesegol a chynaliadwy.<br><br>Byddan nhw hefyd yn datblygu gwydnwch, yn meithrin annibyniaeth, ac yn codi lefelau hunanhyder a hunan-barch. Bydd profiadau yn y Dyniaethau, yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi, yn eu hannog i fod yn uchelgeisiol ac i ddatrys problemau'n hyderus, gan ystyried goblygiadau moesegol eu dewisiadau | | Plant a Phobl Ifanc |

| | | |
|---|---|---|
| bob amser.<br><br>O ran Gwyddoniaeth a Thechnoleg, bydd dealltwriaeth gynyddol dysgwyr o iechyd a ac afiechydon, gan gynnwys camau ataliol, yn eu cefnogi i ymwneud yn gadarnhaol yn eu cymunedau lleol ac yn y gymdeithas ehangach o safbwynt iechyd. | | |

| **Lles Meddyliol** | | **Grwpiau agored i niwed yr effeithir arnynt** |
|---|---|---|
| **Effeithiau Cadarnhaol** | **Effeithiau Negyddol** | |
| Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd yw cefnogi dysgwyr i fod yn unigolion iach, hyderus sy'n:<br><br>• meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, gwydnwch ac empathi<br>• gwybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cymorth i gadw'n ddiogel ac yn iach<br><br>Mae'r MDaPh Iechyd a Lles yn cynnwys datganiad o'r hyn sy'n bwysig sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl a lles emosiynol, gan ei roi gyda datganiad ar iechyd a lles corfforol. Bydd y canllawiau yn helpu dysgwyr i ddeall sut mae iechyd meddwl a lles emosiynol yn dylanwadu ar y ffordd y mae pobl yn meddwl, yn teimlo ac yn ymddwyn. Bydd hefyd yn helpu dysgwyr i archwilio'r cysylltiadau rhwng profiadau bywyd a lles meddyliol ac emosiynol.<br><br>Trwy ddeall yr amodau sy'n hybu ac yn effeithio ar iechyd meddwl a lles emosiynol, bydd y dysgwyr yn cael cymorth i reoli'r profiadau y maen nhw'n dod ar eu traws. Byddan nhw hefyd yn cael eu cynorthwyo i ddatblygu eu gallu i ganolbwyntio ac i fod yn ymwybodol o sut maen nhw'n meddwl ac yn teimlo yn ystod eu profiadau. Yn ogystal, byddant yn archwilio sut y canfyddir profiadau. Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr feithrin sgiliau hunanymwybyddiaeth ac empathi. Mae hunanymwybyddiaeth yn caniatáu i ddysgwyr fod yn dderbyngar ac yn fyfyriol, sy'n eu helpu i addasu eu hymddygiad a'u gweithredoedd i wahanol sefyllfaoedd. Mae hyn yn ei dro yn galluogi dysgwyr i weithredu | Fel maes arbenigol lle gall y dulliau addysgu effeithio'n sylweddol ar les dysgwyr, bydd yn hanfodol bod ymarferwyr yn cael eu cefnogi i ddatblygu dysgu yn y maes hwn mewn ffordd sensitif, o safon uchel.<br><br>Os nad yw hyn yn digwydd, gallai'r dysgwyr gael eu heffeithio'n negyddol. Mae goblygiadau dysgu proffesiynol sy'n deillio o'r cwricwlwm newydd yn cael eu nodi ac mae'r dulliau cefnogi ar gyfer dysgu proffesiynol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol yn cael eu rhoi ar waith. | Plant a Phobl Ifanc |

| | | |
|---|---|---|
| gydag empathi, tosturi a charedigrwydd tuag at eu hunain ac eraill.<br><br>Bydd dysgwyr hefyd yn cael cymorth drwy ddysgu i ddatblygu iechyd, cydberthnasau cadarnhaol ac ymgysylltu'n feirniadol â dylanwadau cymdeithasol (megis pwysau gan gyfoedion a dylanwad y cyfryngau) sy'n gallu effeithio ar eu hiechyd a'u lles, gan hefyd gefnogi eu meddwl a'u lles emosiynol.<br><br>Bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn rhan statudol o'r cwricwlwm newydd tra bod y canllawiau cwricwlwm newydd yn cynnig cymorth i ymarferwyr ystyried hyn ar draws pob MDaPh. Bydd hyn yn cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu agwedd iach a chadarnhaol tuag at berthnasoedd a rhywioldeb.<br><br>Bydd gan y dysgwyr y lle diogel i drafod a myfyrio sy'n caniatáu amser i archwilio eu safbwyntiau personol ar fyd-olygon crefyddol ac anghrefyddol, heriau moesegol a materion cynhwysiad cymdeithasol. Gofynnir iddynt hefyd archwilio'r byd naturiol, yn lleol, ar draws Cymru a thu hwnt, a fydd yn meithrin ymdeimlad o le a lles. Bydd y profiadau hyn yn helpu i gefnogi datblygiad unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas yng Nghymru a'r byd. | | |

| **Amodau byw ac amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd** | | **Grwpiau agored i niwed yr effeithir arnynt** |
|---|---|---|
| **Effeithiau Cadarnhaol** | **Effeithiau Negyddol** | |
| Bydd yr MDaPh Iechyd a Lles yn helpu dysgwyr i ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a lles, gan gynnwys y ffactorau amgylcheddol sy'n effeithio ar les corfforol, meddyliol ac emosiynol.<br><br>O fewn y Dyniaethau bydd dysgwyr yn ystyried ystod o faterion cymdeithasol, diwylliannol a chorfforol o fewn eu cymunedau. Byddant yn archwilio materion fel cyfraniad y byd naturiol i'n hiechyd a'n lles, a sut y gall ffactorau amgylcheddol effeithio ar iechyd a lles.<br><br>O ran Gwyddoniaeth a Thechnoleg, bydd dysgwyr yn | | Plant a Phobl Ifanc |

| | | |
|---|---|---|
| dod i ddeall gwyddoniaeth cynefinoedd naturiol, cadwyni bwyd a gweoedd bwyd, yn ogystal â phwysigrwydd cylchredau maetholion ar gyfer parhad bywyd. Byddant hefyd yn dysgu am faterion cyfoes sy'n effeithio ar fioamrywiaeth, gan gynnwys ffactorau amgylcheddol a gweithgarwch dynol. Mae'r MDaPh yn pwysleisio pwysigrwydd archwilio a phrofiad drwy ymchwilio a gwerthuso tystiolaeth, y tu mewn ac yn yr awyr agored, wrth i ddysgwyr ddatblygu fel dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n gallu arddangos gofal, cyfrifoldeb a pharch at bethau byw a'r amgylchedd y maent yn byw ynddo. | | |

| **Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd** | | **Grwpiau agored i niwed yr effeithir arnynt** |
|---|---|---|
| **Effeithiau Cadarnhaol** | **Effeithiau Negyddol** | |
| Bwriad canllawiau'r cwricwlwm newydd yw cefnogi dysgwyr waeth beth fo'u cefndir economaidd a galluogi dysgu am iechyd a lles. | Gallai hyblygrwydd y cwricwlwm newydd arwain at amrywiad yn y ddarpariaeth rhwng gwahanol gymunedau. Gallai hyn roi rhai dysgwyr mewn perygl oherwydd eu cefndir neu eu daearyddiaeth. Bwriedir i Fframwaith y Cwricwlwm warchod yn erbyn hyn drwy ddarparu elfennau gorfodol ar gyfer pob cwricwlwm a chanllawiau statudol ategol. Bydd Estyn a chonsortia rhanbarthol yn cefnogi ysgolion ac ymarferwyr. Caiff goblygiadau dysgu proffesiynol sy'n deillio o'r cwricwlwm newydd eu nodi a chaiff dulliau cefnogi ar gyfer dysgu proffesiynol eu darparu ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. | Plant a Phobl Ifanc |

| **Mynediad ac ansawdd gwasanaethau** | **Grwpiau agored i niwed yr effeithir arnynt** |
|---|---|

| Effeithiau Cadarnhaol | Effeithiau Negyddol | |
|---|---|---|
| Bydd canllawiau'r MDaPh Iechyd a Lles yn helpu dysgwyr i wybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cymorth i gadw'n ddiogel ac yn iach mewn ystod o gyd-destunau.<br><br>Mae'r MDaPh hefyd yn cynnwys datganiad o'r hyn sy'n bwysig wrth wneud penderfyniadau: Bydd deall y ffactorau sy'n dylanwadu ar wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar iechyd a lles yn helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau ystyriol ar sail gwybodaeth – penderfyniadau y gallant eu cyfiawnhau a'u hegluro. Bydd dysgwyr yn cael cymorth i ddatblygu'r sgiliau sy'n angenrheidiol i ystyried dewisiadau'n feirniadol, ac i ddeall risgiau a chanlyniadau posibl eu penderfyniadau drostynt eu hunain ac eraill. | Gallai hyblygrwydd y cwricwlwm newydd arwain at amrywiad yn y ddarpariaeth rhwng gwahanol gymunedau. Gallai hyn roi rhai dysgwyr mewn perygl oherwydd eu cefndir neu eu daearyddiaeth. Bwriedir i'r canllawiau fod yn fframwaith cyffredin i warchod yn erbyn hyn, tra chaiff ysgolion ac ymarferwyr eu cefnogi gan Estyn a chonsortia rhanbarthol. Caiff goblygiadau dysgu proffesiynol sy'n deillio o'r cwricwlwm newydd eu nodi a chaiff dulliau cefnogi ar gyfer dysgu proffesiynol eu darparu ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. | Plant a Phobl Ifanc |

| Ffactorau macroeconomaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd | | Grwpiau agored i niwed yr effeithir arnynt |
|---|---|---|
| **Effeithiau Cadarnhaol** | **Effeithiau Negyddol** | |
| Gall y nodweddion sy'n sail i'r pedwar diben gyfrannu at godi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth ac ecoleg; o dan ddinasyddion egwyddorol, gwybodus - Mae pob dysgwr yn dangos ei ymrwymiad i gynaliadwyedd y blaned ac yn cydnabod ei fod yn dibynnu arno; gan ddeall ac ystyried effaith eu gweithredoedd wrth wneud dewisiadau a chymryd camau.<br><br>Mae'r cwricwlwm newydd yn caniatáu addysgu er mwyn pwysleisio bioamrywiaeth ac ecoleg yn amgylcheddau lleol y dysgwyr (MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg), a hefyd yn hwyluso golwg ehangach ar y byd (MDaPh y Dyniaethau). | | Plant a Phobl Ifanc |

**Crynodeb o'r Effeithiau Posibl ar Iechyd a Nodwyd**

1. Effeithiau Cadarnhaol

Drwy'r Pedwar Diben, y MDaPh Iechyd a Lles a meysydd dysgu a phrofiad eraill, bydd dysgwyr yn cael amrywiaeth o ddysgu sy'n eu cefnogi i ddatblygu a chynnal ymddygiad cadarnhaol sy'n cadarnhau iechyd.

2. Effeithiau Negyddol

Gallai hyblygrwydd y cwricwlwm newydd arwain at amrywiad yn y ddarpariaeth ar draws gwahanol gymunedau. Gallai hyn osod rhai dysgwyr mewn perygl oherwydd eu cefndir neu eu daearyddiaeth. Bwriedir i'r canllawiau fod yn fframwaith cyffredin i warchod yn erbyn hyn, tra caiff ysgolion ac ymarferwyr eu cefnogi gan Estyn a chonsortia rhanbarthol.

Bydd yn hanfodol bod ymarferwyr yn cael eu cefnogi i ddatblygu dysgu yn y maes hwn mewn ffordd sensitif, o ansawdd uchel. Os nad yw hyn yn wir, gallai dysgwyr gael eu heffeithio'n negyddol.

3. Effeithiau ar Grwpiau Agored i Niwed

Bydd y polisi hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol a chyflyrau iechyd penodol.

**Argymhellion**

**A yw'r effeithiau a nodwyd uchod yn ddigon i warantu asesiad mwy cynhwysfawr o'r effaith ar iechyd?**

Nac ydyn

**Beth yw'r rhesymau dros beidio â chynnal asesiad?**

Mae'r cynigion yn cynrychioli gwelliant sylweddol yn ymagwedd y cwricwlwm tuag at iechyd a lles. Nodwyd yr effeithiau negyddol ar hyn o bryd fel rhai posibl.

Mae effeithiau negyddol posibl y maes polisi hwn yn ddibynnol ar feysydd polisi eraill, yn hytrach na materion sy'n ymwneud â chynnwys y canllawiau eu hunain: sef dysgu ac atebolrwydd proffesiynol yn benodol. Bydd swyddogion ar draws y meysydd hyn yn parhau i weithio gyda'i gilydd i gefnogi addysg gadarnhaol a chyfartal ynghylch iechyd a lles pob dysgwr.

**A oes angen cymryd unrhyw gamau ychwanegol o ganlyniad i'r broses Asesiad o'r Effaith ar Iechyd**?

Bydd swyddogion yn parhau i adolygu effeithiau posibl y cynigion.

**A oes asesiadau effaith eraill wedi'u cynnal? Neu a fydd hyn yn rhan o un?**

Mae'r sgrinio hwn yn rhan o asesiad effaith integredig.